Swyddfa Ystadegau Gwladol

cyfrifiad 2031

# Cyfrifiad 2031: Ymgynghoriad ar cynnwys ar gyfer Cymru a Lloegr

## Dogfen ymgynghori

Hydref 2025







# Cynnwys


**Rhagair gan yr Ysgrifennydd Parhaol** **1**

**Crynodeb gweithredol** **4**

**Cefndir** **7**

Diben yr ymgynghoriad hwn 11

**Meini prawf gwerthuso ar gyfer pynciau'r cyfrifiad** **14**

Meini prawf gwerthuso sy'n ymwneud â gofynion defnyddwyr 15

**Cyfrifiad 2031: barn gychwynnol am gynnwys ar gyfer Cymru a Lloegr** **18**

Rhan un: pynciau a gafodd eu cynnwys yng Nghyfrifiad 2021 20

Rhan Dau: pynciau newydd posibl 57

Rhan Tri: Seiliau poblogaeth a diffiniadau 59

**Y camau nesaf a sut i gymryd rhan** **67**

Cyfrinachedd a diogelu data 69

**Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad: holiadur enghreifftiol** 70

**Atodiad B: Polisi cymedroli** 104

**Atodiad C: Canllawiau ar gyfer sefydliadau sydd ag ymatebwyr lluosog** 106

**Atodiad D: Crynodeb o'r farn gychwynnol ar gynnwys Cyfrifiad 2031 yng Nghymru a Lloegr** 113

**Atodiad E: Ôlnodiadau** 116



# Rhagair gan yr Ysgrifennydd Parhaol

Ers 1801, mae cyfrifiad wedi cael ei gynnal yng Nghymru a Lloegr bob deg mlynedd, heblaw am 1941 oherwydd yr Ail Ryfel Byd. Mae'r cyfrifiad yn darparu gwybodaeth am boblogaeth Cymru a Lloegr sy'n hanfodol i weithrediad ein cymdeithas. Mae'n llywio penderfyniadau am wasanaethau cyhoeddus ac yn ein helpu i ddeall yr economi, iechyd y cyhoedd ac anghydraddoldeb. Mae'n disgrifio'r cymunedau rydym yn byw ynddynt a sut maent yn newid dros amser. Gan fod cymdeithas wedi newid, felly hefyd mae'r cwestiynau a gaiff eu gofyn yn y cyfrifiad, ynghyd â'r dulliau a ddefnyddir i gasglu data, gyda Chyfrifiad 2021 yn mabwysiadu dull casglu data ar-lein yn gyntaf.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r ymgynghoriad hwn, a fydd yn llywio penderfyniadau ar ba bynciau a gaiff eu cynnwys yn y cyfrifiad nesaf o Gymru a Lloegr. Fel Ysgrifennydd Parhaol newydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (y SYG), fy mlaenoriaeth yw sicrhau ein bod yn diwallu anghenion craidd ein defnyddwyr drwy'r ystod lawn o ystadegau a dadansoddiadau sydd gennym, y mae llawer ohonynt yn dibynnu ar y cyfrifiad. Drwy ymateb i'r ymgynghoriad hwn, byddwch yn chwarae rôl allweddol o ran llywio pa bynciau a gaiff eu cynnwys yn y cyfrifiad nesaf a sicrhau bod Cyfrifiad 2031 yn darparu'r allbynnau mwyaf gwerthfawr ar gyfer llywio penderfyniadau polisi hanfodol.

**Fy uchelgais yw i Gyfrifiad 2031 adeiladu ar lwyddiant Cyfrifiad 2021. Bydd yn defnyddio dull cynhwysol a digidol yn gyntaf, gan fanteisio i'r eithaf ar ddata gweinyddol i gefnogi prosesau casglu data a'u hansawdd, a byddwn yn cydweithio'n agos â chydweithwyr yn y Llywodraethau**

**Datganoledig i gynhyrchu allbynnau cydlynol. Byddwn hefyd yn ceisio arloesi, gan fanteisio ar ddatblygiadau technolegol fel deallusrwydd artiffisial, lle gallwn fod yn hyderus bod y dulliau hyn yn ddibynadwy.**

Fel gyda'n holl ystadegau, mae anghenion ein defnyddwyr yn parhau i fod wrth wraidd ein prosesau gwneud penderfyniadau ar y cyfrifiad. Dangosodd adborth yng Nghynulliad Ystadegau'r Deyrnas Unedig 2025 pa mor bwysig yw'r cyfrifiad i'n defnyddwyr, ac rwyf yn croesawu safbwyntiau gan gynrychiolwyr o bob rhan o'n sylfaen defnyddwyr eang drwy holiadur yr ymgynghoriad hwn er mwyn llywio pa bynciau a gaiff eu cynnwys yn y cyfrifiad nesaf. Wrth i mi ddechrau fy mlwyddyn gyntaf fel Ysgrifennydd Parhaol, edrychaf ymlaen at ymgysylltu â llawer ohonoch wrth i ni weithio gyda'n gilydd tuag at gyfrifiad llwyddiannus yn 2031.



**Darren Tierney**
Ysgrifennydd Parhaol y Swyddfa Ystadegau Gwladol
Hydref 2025



# Crynodeb gweithredol

Ar 15 Gorffennaf 2025, comisiynodd llywodraeth y Deyrnas Unedig y SYG i gynnal cyfrifiad o Gymru a Lloegr yn 2031. Rydym nawr wedi dechrau paratoadau'r cyfrifiad, er mwyn darparu ystadegau o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion defnyddwyr ar gyfer y 2030au. Bydd Cyfrifiad 2031 yn rhoi sylfaen gryf ar gyfer mynd i'r afael â gofynion parhaus am ystadegau am y boblogaeth drwy'r degawd, ar y cyd â ffynonellau data eraill.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi ein safbwynt cychwynnol ar y pynciau a gaiff eu casglu drwy'r cyfrifiad. Mae'r safbwynt cychwynnol hwn yn seiliedig ar ymatebion i ymgynghoriad 2023[1] ar ddyfodol ystadegau am y boblogaeth a mudo, yn ogystal â gwaith ymgysylltu eang â rhanddeiliaid dros y degawd diwethaf ers ein hymgynghoriad blaenorol ar bynciau

yn 2015. Ceisiodd ymgynghoriad 2023 farn am y ffordd roedd cynigion y SYG i ddefnyddio data gweinyddol i gynhyrchu ystadegau yn diwallu anghenion defnyddwyr o gymharu â system sy’n seiliedig ar gyfrifiad.

**Rydym yn gwahodd defnyddwyr i ddarparu tystiolaeth bellach i lywio penderfyniadau ar gynnwys amrywiaeth o bynciau yn y cyfrifiad.**

Bydd y penderfyniadau hyn yn seiliedig ar werthusiad yn erbyn y meini prawf a ddisgrifir yn nes ymlaen yn y ddogfen hon, yn unol â’r polisi cymedroli (darllenwch fwy yn Atodiad B).

Defnyddir ymatebion i’r ymgynghoriad hefyd ar y cyd â gwybodaeth arall i gefnogi’r broses o flaenoriaethu gwaith perthnasol arall o fewn y SYG sy’n mynd y tu hwnt i Gyfrifiad 2031. Mae hyn yn cynnwys ystadegau yn seiliedig ar ddata gweinyddol a safonau wedi’u cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth[2] (Saesneg yn unig) ar gyfer casglu data (gweler Diben yr ymgynghoriad hwn).

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn parhau i ymgysylltu â defnyddwyr i gefnogi’r gwaith o ddatblygu cwestiynau a chynllun yr holiadur ar gyfer y cyfrifiad. Ar gam diweddarach, byddwn yn ymgynghori ar gynllun y cynnwys a chynigion ar gyfer cam ddatganiadau allbynnau’r cyfrifiad.

Fel yn y gorffennol, bydd cyfrifiadau ar wahân yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac rydym yn gweithio gyda Chofnodion Cenedlaethol yr Alban (NRS) ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon (NISRA) i gydlynu dulliau gweithredu mewn perthynas â'r cyfrifiadau yn 2031.

**Fe'ch gwahoddir i ymateb i'r ymgynghoriad drwy gwblhau'r holiadur erbyn y dyddiad cau, sef 4 Chwefror 2026.**

Rydym yn eich annog yn gryf i gwblhau holiadur yr ymgynghoriad ar lein ar wefan Citizen Space[3]. Gallwch hefyd lawrlwytho'r holiadur o wefan Citizen Space ac ymateb drwy e-bost neu drwy'r post.

Mae copïau ffisegol o'r ddogfen ymgynghori hon a'r holiadur ar gael ar gais. Mae copïau print mawr hefyd ar gael.

Gellir anfon ymatebion ac ymholiadau drwy e-bost i Topic.Consultation@ons.gov.uk, neu drwy'r post i:

**ONS Consultations Team**
Post Room
Office for National Statistics
Segensworth Road
Fareham PO15 5RR

Gallwch chi hefyd ffonio Gwasanaethau Cwsmeriaid y SYG ar gyfer y cyfrifiad ar 01329 444 972.

# Cefndir

Mae gwybodaeth am boblogaeth Cymru a Lloegr yn hanfodol i weithrediad ein cymdeithas. Mae'n llywio penderfyniadau am wasanaethau cyhoeddus ac yn ein helpu i ddeall yr economi, iechyd y cyhoedd ac anghydraddoldeb. Mae'n disgrifio cyfansoddiad y cymunedau rydym yn byw ynddynt a sut maent yn newid dros amser. Mae'n hanfodol bod gwybodaeth am y boblogaeth o ansawdd uchel ac yn cynrychioli cymdeithas, fel bod y dystiolaeth orau ar gael ar gyfer gwneud penderfyniadau ac ymchwilio.

Yn y SYG, rydym yn cynhyrchu ystadegau am y boblogaeth a data am Gymru a Lloegr yn rheolaidd, gan gynnwys drwy'r cyfrifiad. Mae Llywodraeth Cymru yn bartneriaid pwysig drwy gydol y broses o gynllunio a chynnal y cyfrifiad. Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Chofnodion Cenedlaethol yr Alban (NRS) ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon (NISRA) i gynhyrchu'r wybodaeth hon am y Deyrnas Unedig, gan gydnabod pa mor bwysig yw cael ystadegau cydlynol ledled y Deyrnas Unedig. Mae Concordat y Deyrnas Unedig ar Ystadegau[4] (Saesneg yn unig) yn nodi sut mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraethau datganoledig yn cydweithio mewn perthynas ag ystadegau.

Fel rheol, mae cyfrifiad wedi cael ei gynnal yng Nghymru a Lloegr bob degawd ers 1801, gan ddarparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwneud

penderfyniadau ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol. Dros amser, mae wedi datblygu er mwyn ymdrin â materion cyfredol ac ymateb i newidiadau cymdeithasol a thechnolegol.

Cyfrifiad 2021 oedd y cyntaf i gael ei gynnal ar lein yn bennaf, a gwnaethom ddefnyddio data o bob rhan o'r sector cyhoeddus (data "gweinyddol") i gefnogi gweithrediad y cyfrifiad a'r broses o gynhyrchu allbynnau. Hefyd, cyflwynodd Cyfrifiad 2021 gwestiwn newydd am wasanaeth blaenorol yn lluoedd arfog y Deyrnas Unedig a chwestiynau gwirfoddol newydd am gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd. Gwnaethom hefyd lwyddo i ddefnyddio data gweinyddol i ddisodli'r cwestiwn am nifer yr ystafelloedd sydd ar gael i gartref.

Ychwanegwyd y cwestiynau newydd at Gyfrifiad 2021 yn dilyn asesiad a lywiwyd gan ymatebion i ymgynghoriad yn 2015, a ffactorau eraill, a oedd yn cynnwys ystyriaethau o ran hyd yr holiadur a'r baich ar ymatebwyr. Ystyr baich ar ymatebwyr yw pa mor anodd yw hi i ymatebwyr y cyfrifiad gwblhau'r holiadur, faint o amser y mae'n ei gymryd iddynt ac a yw'n achosi unrhyw straen iddynt, a gall effeithio ar ansawdd y data. Gan ddefnyddio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, bydd Cyfrifiad 2031 yn defnyddio dull gweithredu tebyg, gan flaenoriaethu cwestiynau sy'n casglu gwybodaeth sy'n darparu'r budd mwyaf i'r cyhoedd o fewn terfynau derbyniol o ran hyd yr holiadur a'r baich ar ymatebwyr.

Rydym hefyd wedi ystyried a yw'n bosibl cynhyrchu data ac amcangyfrifon fel yr hyn a gynhyrchir gan y cyfrifiad yn amlach ac yn gyflymach gan ddefnyddio data gweinyddol. Rydym wedi cynhyrchu amcangyfrifon poblogaeth yn seiliedig ar ddata gweinyddol[5] (Saesneg yn unig) ac amcangyfrifon o fudo rhyngwladol hirdymor yn seiliedig ar ddata gweinyddol[6] (Saesneg yn unig) fel ystadegau swyddogol sydd wrthi'n cael eu datblygu, ac rydym yn parhau i ddatblygu'r gwaith hwn.

Drwy ymgynghori ac ymgysylltu mewn perthynas â'r rhaglen ymchwil ehangach i ddata gweinyddol, gwnaethom gydnabod y galw cryf gan ddefnyddwyr am y data manwl a chynhwysol y mae cyfrifiad mewn sefyllfa unigryw i'w darparu ar ystod eang o bynciau. Ym mis Mehefin 2025, argymhellodd Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig y dylid cynnal cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr yn 2031[7], ar y cyd â pharhau i ddatblygu ystadegau yn seiliedig ar ddata gweinyddol. Drwy'r dull gweithredu hwn, byddem yn dod â data ynghyd o ystod o ffynonellau data er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr yn well.

Yn ei hymateb, comisiynodd llywodraeth y Deyrnas Unedig gyfrifiad yn 2031[8]. Nododd bwysigrwydd gwybodaeth gynhwysol a manwl am y boblogaeth, yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid ledled y Deyrnas Unedig i gynhyrchu ystadegau cydlynol am

y Deyrnas Unedig. Nododd hefyd y gall defnyddio data gweinyddol mewn ffordd arloesol gefnogi'r blaenoriaethau hyn. Rydym nawr yn gweithio i gyflawni'r nodau hyn.

Bydd Cyfrifiad 2031 yn elfen graidd o'r system ystadegau am y boblogaeth a mudo presennol ac yn y dyfodol. Gan adeiladu ar lwyddiant Cyfrifiad 2021 a gweithio yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau[9] (Saesneg yn unig), caiff ei ddylunio i ddarparu ystadegau o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion defnyddwyr ar gyfer y 2030au, ac i fod yn sylfaen gref ar gyfer diwallu anghenion o ran ystadegau am y boblogaeth yn y dyfodol dros y degawd gan ddefnyddio'r ffynonellau.

Fel o'r blaen, cynhelir cyfrifiadau ar wahân yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd pob awdurdodaeth yn dylunio ei holiaduron ei hun er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr lleol, ond byddant hefyd yn cydweithio lle y bo modd gyda'r nod o sicrhau cydlyniant ledled y Deyrnas Unedig. Rydym yn gweithio gydag NRS a NISRA i gydlynu dulliau gweithredu, a all gynnwys llwyfan casglu data a rennir. Lle y bo modd, bydd cyfrifiad Cymru a Lloegr yn cefnogi camau i gysoni allbynnau'r Deyrnas Unedig gan gydnabod cyd-destunau, nodweddion, anghenion defnyddwyr a gofynion gweithredol amrywiol ledled y Deyrnas Unedig.

Mae gan y SYG hanes sicr o ddiogelu data sensitif, wedi'i feithrin dros sawl degawd o gynnal y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr, ac arolygon rheolaidd mwyaf y Deyrnas Unedig o gartrefi. Rydym yn parhau i gydymffurfio ag egwyddorion moesegol Pwyllgor Cynghorol Moeseg Data'r Ystadegydd Gwladol, a byddwn yn parhau i ymgynghori â'r pwyllgor hwnnw er mwyn cael wrth i waith ar y cyfrifiad ddatblygu.

## Diben yr ymgynghoriad hwn

Mae'r cyfrifiad yn gyfle unigryw i ofyn cwestiynau i boblogaeth gyfan Cymru a Lloegr. Prif ddiben yr ymgynghoriad hwn yw darparu tystiolaeth i gefnogi penderfyniadau ynghylch pa bynciau ddylai gael eu cynnwys yn y cyfrifiad. Byddwn yn gwneud hyn drwy flaenoriaethu'r wybodaeth a fydd yn darparu'r ddealltwriaeth a'r gwerth mwyaf i ddefnyddwyr, gan ystyried cyfyngiadau fel hyd yr holiadur, y baich ar ymatebwyr, a derbynioldeb y cyhoedd. I gefnogi'r asesiad hwn, byddwn yn gwerthuso ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn erbyn casgliad o feini prawf sy'n ymwneud â gofynion defnyddwyr (gweler Meini prawf gwerthuso ar gyfer pynciau'r cyfrifiad).

Defnyddir ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd at y diben eilaidd o lywio gwaith perthnasol arall o fewn y SYG sy'n mynd y tu hwnt i Gyfrifiad 2031, ochr yn ochr â ffactorau a thystiolaeth arall o waith ymgysylltu ehangach. Mae hyn yn cynnwys blaenoriaethu'r canlynol:

- y gwaith o ddatblygu ystadegau yn seiliedig ar ddata gweinyddol, yn unol ag argymhelliad Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig i'r llywodraeth[10]. Mae hyn yn cynnwys p'un a all ffynonellau gweinyddol fod mewn sefyllfa well i ddiwallu anghenion defnyddwyr na data o gyfrifiad traddodiadol ar gyfer pynciau penodol
- yr adolygiad parhaus o safonau wedi'u cysoni ar gyfer casglu data[11] (Saesneg yn unig) ar bynciau gwahanol. Mae cydlynu â safonau wedi'u cysoni yn ychwanegu at werth prosesau casglu data, gan gynnwys y cyfrifiad, drwy wella cymhared a chydlyniaeth ystadegau ar draws ffynonellau

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar bynciau hwn, mae Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth yn ymgynghori ar ddiwygiadau i'r safon wedi'i chysoni ar gyfer casglu data ar ethnigrwydd[12] (Saesneg yn unig). Disgwyliwn i'r cwestiwn perthnasol yn y cyfrifiad gyd-fynd â'r safon hon yng Nghymru a Lloegr. Diben yr ymgynghoriad ar y safon wedi'i chysoni ar gyfer ethnigrwydd yw casglu barn am opsiynau ymateb blwch ticio ychwanegol a all fod yn ofynnol ar gyfer y safon newydd, gan lywio canllawiau newydd ar gyfer casglu data ar draws ystod o ffynonellau a dulliau. Mae ganddo gwmpas a holiadur gwahanol i'r ymgynghoriad ar bynciau hwn felly. Bydd y ddau ymgynghoriad yn llywio'r ffordd y caiff data ar grŵp ethnig eu casglu yng nghyfrifiad Cymru a Lloegr yn 2031 ac anogir y rhai sy'n defnyddio data ar grŵp ethnig i gwblhau'r ddau ymgynghoriad.

Ceir rhagor o wybodaeth ar dudalen gysylltiedig yr ymgynghoriad ar gysoni'r gwaith o gasglu data ar ethnigrwydd[13], sy'n cau ar 4 Chwefror 2026.

Bydd cynllun cwestiynau'r cyfrifiad a'r holiadur yn ehangach yn dilyn yr ymgynghoriad hwn a'r dadansoddiad o ymatebion. Byddwn yn ymgysylltu ymhellach â defnyddwyr ac yn ymgymryd â rhaglen ymchwil i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cwestiynau, a fydd hefyd yn cael ei lywio gan y safonau perthnasol.

# Meini prawf gwerthuso ar gyfer pynciau'r cyfrifiad

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r meini prawf y byddwn yn eu defnyddio i werthuso ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Bydd y meini prawf gwerthuso yn ein helpu i flaenoriaethu pynciau sy'n cynnig y budd mwyaf i gymdeithas ac asesu ai'r cyfrifiad yw'r dull mwyaf addas o ddiwallu pob angen am ddata, wrth ystyried y terfynau derbyniol o ran hyd yr holiadur a'r baich ar ymatebwyr. Caiff pob pwnc yr ystyrir ei gynnwys ei werthuso yn erbyn y canlynol:

- anghenion defnyddwyr
- gofynion gweithredol
- ystyriaethau eraill

Caiff ymatebion i'r ymgynghoriad eu gwerthuso yn erbyn y meini prawf ar gyfer gofynion defnyddwyr er mwyn llywio'r broses o ddewis pynciau i'w cynnwys yng Nghyfrifiad 2031. Bydd tystiolaeth arall yn llywio'r penderfyniadau hyn hefyd, a asesir yn erbyn y meini prawf sy'n ymwneud â gofynion gweithredol ac ystyriaethau eraill.

Byddwn yn cyhoeddi manylion llawn y meini prawf gwerthuso maes o law. Mae'r meini prawf yn seiliedig ar y meini prawf a ddefnyddiwyd ar gyfer Cyfrifiad 2021.

# Meini prawf gwerthuso sy'n ymwneud â gofynion defnyddwyr

## Diben (effaith)

Mae hyn yn ymwneud â'r rhesymau y mae angen y data ar ddefnyddwyr, a'r effaith y byddai'r data yn ei chael i'w defnyddwyr, eu gweithgareddau a'r cyhoedd.

## Ardaloedd daearyddol bach neu boblogaethau bach

Mae hyn yn ymwneud â phwysigrwydd gwybodaeth am grwpiau bach o'r boblogaeth a/neu ar lefelau daearyddol manwl. Gallai grŵp bach o'r boblogaeth gynnwys grwpiau o bobl a gaiff eu nodi gan hunaniaethau diwylliannol a rennir a all fod yn anodd eu cynrychioli'n gywir drwy arolygon. Efallai y byddai'n well caffael gwybodaeth sydd ei hangen ar gyfer ardaloedd daearyddol eang neu grwpiau mawr o'r boblogaeth o ffynonellau ystadegol eraill.

## Ffynonellau amgen

Mae hyn yn ymwneud ag argaeledd data o ffynonellau eraill, fel data gweinyddol, ac a fyddai'r ffynonellau hynny yn galluogi'r SYG i fodloni gofynion ansawdd a diwallu anghenion defnyddwyr heb fod angen casglu'r wybodaeth yn uniongyrchol o'r cyfrifiad.

### Dadansoddiad amlamrywedd

Mae hyn yn ymwneud ag anghenion defnyddwyr ar gyfer dadansoddi gwybodaeth ar draws gwahanol byncìau. Bydd gofyniad i gynnal dadansoddiad amlamrywedd yn effeithio ar b'un a oes ffynonellau amgen addas yn bodoli, a gall atgyfnerthu'r achos dros gynnwys pynciau yn y cyfrifiad.

### Cymharedd y tu hwnt i Gymru a Lloegr

Mae hyn yn ymwneud ag anghenion defnyddwyr am ddata cymaradwy ar draws ffiniau daearyddol, ac mewn perthynas â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig yn bennaf.

### Cysondeb â chyfrifiadau blaenorol

Mae hyn yn ymwneud ag anghenion defnyddwyr ar gyfer cymharu data'r cyfrifiad o 2031 â chyfrifiadau'r gorffennol.

**Bydd gofynion gweithredol hefyd yn llywio pa ddata'r cyfrifiad gaiff eu casglu.** Byddwn yn ystyried y rôl y mae pob pwnc yn ei chwarae o ran sicrhau bod gweithrediad y cyfrifiad yn llwyddiant, boed hynny o ran casglu, prosesu neu sicrhau ansawdd.

**Bydd ystyriaethau eraill hefyd yn llywio'r adolygiad o bynciau'r cyfrifiad** ac yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu cwestiynau, er enghraifft, ystyriaethau sy'n ymwneud

ag ansawdd data, agweddau'r cyhoedd, y baich ar ymatebwyr a modd holiadur.

Fel y disgrifir yn yr adran Diben yr ymgynghoriad hwn, bydd yr ymgynghoriad hwn hefyd yn cyfrannu at sylfaen dystiolaeth sy'n llywio ein gwaith gyda data gweinyddol a'r adolygiad parhaus o safonau wedi'u cysoni ar gyfer casglu data.






# Cyfrifiad 2031: barn gychwynnol am gynnwys ar gyfer Cymru a Lloegr

Mae’r adran hon yn crynhoi ein barn gychwynnol am bynciau i’w cynnwys yn y cyfrifiad ac yn gwahodd barn gan ymatebwyr drwy holiadur yr ymgynghoriad ar bynciau[14]. Ceir crynodeb byrrach yn Atodiad D. Mae’r farn gychwynnol a nodir yn y ddogfen hon yn seiliedig ar weithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori blaenorol â defnyddwyr, yn ogystal ag ystyriaethau gweithredol, a gall newid yng ngoleuni tystiolaeth newydd. Ar gyfer pob pwnc, rhoddir barn gychwynnol yn seiliedig ar y dystiolaeth bresennol, gan nodi:

- p’un a ydym yn disgwyl casglu data ar y pwnc - “Casglu drwy’r cyfrifiad”
- p’un a oes angen rhagor o wybodaeth i lywio penderfyniadau - “Angen rhagor o wybodaeth”

- p’un a ydym yn cynnig defnyddio data gweinyddol i gynhyrchu ystadegau tebyg i’r cyfrifiad yn hytrach na chasglu data drwy’r cyfrifiad - “Peidio â chasglu drwy’r cyfrifiad (ceisio diwallu anghenion defnyddwyr drwy ddata gweinyddol)”

Ein barn gychwynnol ar gyfer llawer o’r pynciau a restrir isod yw eu casglu drwy’r cyfrifiad. Ar gyfer is-set fach o’r pynciau hyn, nid oes angen cyfiawnhau’r penderfyniad i’w cynnwys ymhellach gan fod y wybodaeth yn hanfodol i weithrediad y cyfrifiad neu’r system ystadegau poblogaeth ehangach. Fodd bynnag, mae gennym ddiddordeb yn adborth ymatebwyr ar eu hanghenion mewn perthynas â’r pynciau hyn o hyd, yn enwedig lle gall gofynion fod wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd y farn gychwynnol ar gyfer y pynciau hyn yn eu nodi’n glir fel “casglu drwy’r cyfrifiad - hanfodol”. Bydd hyn yn dangos pwysigrwydd pwnc penodol i ystadegau’r SYG am y boblogaeth.

Ar gyfer sawl pwnc, mae angen gwybodaeth ychwanegol i gefnogi ein hasesiad rhagarweiniol. Caiff ysgogiadau penodol am wybodaeth ychwanegol eu cynnwys yn yr adran hon ac rydym yn croesawu barn am y pwyntiau hyn yn eich ymateb.

Mae’r adran Meini prawf gwerthuso ar gyfer pynciau’r cyfrifiad yn nodi sut y caiff tystiolaeth a ddarperir gan ymatebwyr ar bob pwnc ei gwerthuso. Bydd y gwerthusiad hwn yn helpu i bennu a fyddwn yn

cynhyrchu allbynnau'r cyfrifiad ar bwnc ac a ddylid casglu data am y pwnc drwy'r cyfrifiad neu eu cynhyrchu gan ddefnyddio ffynonellau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r cyfrifiad.

**Mae holiadur yr ymgynghoriad hwn wedi'i rannu'n dair rhan, a gofynnir cwestiynau gwahanol ar gyfer pob rhan.**

- Rhan un: Cwestiynau am bynciau a gafodd eu cynnwys yng Nghyfrifiad 2021 neu mewn cyfrifiadau blaenorol.
- Rhan dau: Cwestiynau am bynciau newydd posibl.
- Rhan tri: Cwestiynau am ardaloedd daearyddol, diffiniadau a phoblogaethau, sy'n ymwneud â phynciau gwahanol yn y cyfrifiad.

Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn cynnwys cwestiynau am y ffordd y caiff pynciau eu grwpio ar holiadur y cyfrifiad ac am anghenion defnyddwyr am ddata ar sefydliadau cymunedol a'u preswylwyr.

## Rhan un: pynciau a gafodd eu cynnwys yng Nghyfrifiad 2021

Mae'r adran hon yn crynhoi anghenion hysbys defnyddwyr am bynciau a gafodd eu cynnwys yng Nghyfrifiad 2021, a rhai pynciau eraill a gasglwyd

drwy gyfrifiadau blaenorol. Mae llawer o'r pynciau (er enghraifft, oedran neu'r lefel uchaf o gymhwyster) wedi'u grwpio i grwpiau pwnc (er enghraifft, demograffeg sylfaenol a chyfansoddiad y cartref, neu addysg). Darperir cyd-destun ychwanegol ar gyfer pob grŵp pwnc.

Rydym yn ceisio adborth manwl gan ddefnyddwyr data i sicrhau ein bod yn deall yn llawn sut a pham y caiff data eu defnyddio. Gan ddefnyddio asesiad o'r dystiolaeth a ddarperir drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gwaith ymgysylltu ehangach, byddwn yn diweddaru neu'n cadarnhau ein barn gychwynnol o ran a ddylid cynnwys pwnc penodol yng Nghyfrifiad 2031.

Gallwch ddod o hyd i'r cwestiynau cysylltiedig ar gyfer y pynciau hyn yn adran "Gwybodaeth am bynciau'r cyfrifiad" yr holiadur yn Atodiad A.

## Demograffeg sylfaenol a chyfansoddiad y cartref

### Oedran

**Barn gychwynnol:** Casglu drwy'r cyfrifiad – hanfodol
**Angen hysbys defnyddwyr:** Mae oedran yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010[15] (Saesneg yn unig). Caiff data am oedran (o'r dyddiad geni) eu defnyddio i gynllunio a darparu gwasanaethau, monitro cydraddoldeb a chreu cyfraddau sydd wedi'u safoni yn ôl oedran. Cânt eu defnyddio hefyd ar y cyd â data eraill fel dangosyddion

economaidd, iechyd a gofal cymdeithasol, a mudo. Mae angen oedran ar ddefnyddwyr yn ôl blwyddyn unigol, bandiau oedran (deilliedig) ac ar gyfer grwpiau penodol sydd o ddiddordeb (er enghraifft, plant, yr henoed, a'r boblogaeth oedran gweithio).

### Rhyw

**Barn gychwynnol:** Casglu drwy'r cyfrifiad – hanfodol
**Angen hysbys defnyddwyr:** Mae rhyw yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Caiff y data hyn eu defnyddio i gynllunio a darparu gwasanaethau, monitro cydraddoldeb, ar gyfer pwysoli a seiliau poblogaeth, ac i ddatblygu polisïau. Rydym yn gwahodd barn ymatebwyr am y ffordd y caiff data ar ryw eu defnyddio ac effaith y defnyddiau hyn.

> Noder bod safon wedi'i chysoni ddiwygiedig ar gyfer y pwnc hwn wrthi'n cael ei datblygu (gweler y cynllun gwaith ar gyfer cysoni a ddiweddarwyd ym mis Rhagfyr 2024[16]) (Saesneg yn unig). Mae'r gwaith hwn ar y cam darganfod a chaiff ei lywio gan wybodaeth berthnasol o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn hefyd.

### Statws priodasol neu bartneriaeth gyfreithiol

**Barn gychwynnol:** Casglu drwy'r cyfrifiad
**Angen hysbys defnyddwyr:** Mae priodas a phartneriaeth sifil yn nodwedd warchodedig o dan

Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas â chyflogaeth. Mae angen y data hyn ar ddefnyddwyr er mwyn monitro cydraddoldeb ac i ddeall strwythurau teuluoedd.

## Cydberthnasau rhwng aelodau o'r cartref a chyd-berthnasau teuluol

**Barn gychwynnol:** Casglu drwy'r cyfrifiad – hanfodol
**Angen hysbys defnyddwyr:** Caiff data ar y pwnc hwn eu defnyddio i ddeall cyfansoddiad cartrefi a strwythurau teuluoedd. Pan gânt eu cyfuno â phynciau eraill, gallant lywio prosesau creu polisïau a gwaith monitro cydraddoldeb. Mae deall strwythurau cartrefi a ffenomena fel meddiannaeth unigol, cartrefi rhiant unigol, tai amlfeddiannaeth, tai myfyrwyr a gorlenwi yn hanfodol er mwyn proffilio'r boblogaeth, cynllunio a dyrannu adnoddau. Gwahoddir ymatebwyr i nodi anghenion am unrhyw fathau ychwanegol o gydberthnasau teuluol.

## Cyd-destun ychwanegol ar gyfer y grŵp pwnc demograffeg sylfaenol a chyfansoddiad y cartref

Mae'r rhain yn newidynnau demograffig craidd ac maent yn hanfodol ar gyfer mathau niferus o ystadegau a phrosesau dadgyfuno.

Mae rhyw wedi cael ei gofnodi yn y cyfrifiad ar lefel unigolion ers 1841. Ers 2011, mae canllawiau ar-lein wedi bod ar gael. Roedd y canllawiau a ddarparwyd o 9 Mawrth 2021[17] (Saesneg yn unig) ar gyfer Cyfrifiad 2021 yn cynghori'r rhai a oedd yn ystyried sut i ateb

i ddefnyddio’r rhyw a oedd wedi ei gofnodi ar eu tystysgrif geni neu eu Tystysgrif Cydnabod Rhywedd.

Ym mis Ebrill 2025, cafwyd dyfarniad gan Oruchaf Lys y Deyrnas Unedig a ddiffiniodd rhyw at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 i olygu rhyw fiolegol. Mae’r SYG wrthi’n gweithio ar ddatblygu safon wedi’i chysoni[18] (Saesneg yn unig) ddiwygiedig ar gyfer cwestiynau a chanllawiau ar ryw sy’n ystyried y dyfarniad hwn. Caiff gwaith ar y safon honno ei lywio gan wybodaeth berthnasol o ymatebion i’r ymgynghoriad hwn.

Mae ffynonellau gweinyddol wedi dangos potensial i ddiwallu anghenion defnyddwyr ar gyfer rhai o’r pynciau hyn. Rydym yn parhau i ddatblygu amcangyfrifon poblogaeth yn seiliedig ar ddata gweinyddol[19] (Saesneg yn unig), a chyhoeddwyd yr allbwn ystadegol diweddaraf ar gyfer y rhain ym mis Gorffennaf 2025. Gall data’r cyfrifiad helpu i sicrhau ansawdd amcangyfrifon yn seiliedig ar ddata gweinyddol mewn perthynas â’r pynciau hyn.

Diweddarwyd y safon wedi’i chysoni ar gyfer priodas neu bartneriaeth sifil yn 2023 er mwyn lleihau’r baich ar ymatebwyr ac mae’n gwbl gymaradwy â data o Gyfrifiad 2021. Diweddarwyd y safon wedi’i chysoni ar gyfer cydberthnasau rhwng aelodau o’r cartref a chydberthnasau teuluol[20] (Saesneg yn unig) yn 2020 er mwyn cofnodi hanner brodyr a chwiorydd fel brodyr a chwiorydd yn hytrach na llysfrodyr a llyschwiorydd.

Dilëwyd yr opsiwn ymateb “maeth” er mwyn gallu cymharu â data’r cyfrifiad yn well, gan ddefnyddio’r categori “ddim yn perthyn” yn lle hynny.

## Tai

### Math o gartref

**Barn gychwynnol:** Casglu drwy’r cyfrifiad – hanfodol
**Angen hysbys defnyddwyr:** Caiff gwybodaeth am fathau o gartref, fel tai cyfan neu fflatiau, ei defnyddio gan lywodraeth ganolog a llywodraeth leol i lywio gwaith cynllunio a pholisi tai. Caiff y data hyn eu defnyddio mewn dadansoddiadau amlamrywedd er mwyn monitro cydraddoldeb a mesur amddifadedd. Gweler Rhan tri i gael gwybodaeth am lety hunangynhwysol, o dan y pennawd diffiniad o annedd.

### Nifer yr ystafelloedd

**Barn gychwynnol:** Peidio â chasglu drwy’r cyfrifiad (ceisio diwallu anghenion defnyddwyr drwy ddata gweinyddol)
**Angen hysbys defnyddwyr:** Defnyddir gwybodaeth am nifer yr ystafelloedd i amcangyfrif maint y stoc dai a rhagfynegi’r angen am dai yn y dyfodol. Caiff ei defnyddio hefyd ar y cyd â data eraill am gartrefi a nodweddion unigolion i ddeall poblogaethau lleol. Er mwyn lleihau’r baich ar ymatebwyr, ni chafodd y cwestiwn ar nifer yr ystafelloedd ei gynnwys yng Nghyfrifiad 2021, gan fod modd defnyddio data gweinyddol gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn lle data’r cyfrifiad ar y pwnc hwn. Mae diddordeb gennym

ym marn defnyddwyr o ran a wnaeth y dull gweithredu hwn ddiwallu eu hanghenion, a'r effaith os na wnaeth eu diwallu.

### Nifer yr ystafelloedd gwely

**Barn gychwynnol:** Angen rhagor o wybodaeth
**Angen hysbys defnyddwyr:** Caiff gwybodaeth am nifer yr ystafelloedd gwely ei defnyddio i fonitro'r angen am dai a llywio strategaeth tai. Mae'n helpu i ddeall grwpiau penodol o'r boblogaeth yn ogystal â gorlenwi a thanfeddiannu. Mae diddordeb gennym ym marn ymatebwyr am ddefnyddio ffynonellau amgen ar gyfer y pwnc hwn a'r gwerth y mae'n ei ychwanegu y tu hwnt i'r pwnc nifer yr ystafelloedd.

### Math o wres canolog

**Barn gychwynnol:** Angen rhagor o wybodaeth
**Angen hysbys defnyddwyr:** Mae'r data hyn yn llywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ac yn cefnogi camau i ddatblygu polisi ynni a sero net. Maent hefyd yn darparu gwybodaeth am effeithlonrwydd ynni cartrefi, ac yn helpu i fonitro sut mae mynediad at wres canolog yn amrywio yn ôl nodweddion er mwyn cefnogi prosesau monitro cydraddoldeb. Mae diddordeb gennym mewn p'un a yw'r data hyn yn parhau i gynnig gwerth i ddefnyddwyr, at ba ddiben y cânt eu defnyddio a'u heffaith. Rhywbeth arall sydd o ddiddordeb yw pa effaith y gall defnyddwyr ei chyflawni gyda data ychwanegol ar gyfleusterau amgylchedd adeiledig fel pympiau gwres, dulliau gwresogi carbon isel neu oeri cartrefi.

### Deiliadaeth a landlord (os ydynt yn rhentu)

**Barn gychwynnol:** Casglu drwy'r cyfrifiad – hanfodol
**Angen hysbys defnyddwyr:** Caiff data ar ddeiliadaeth eu defnyddio ochr yn ochr â data eraill ar nodweddion a thai gan lywodraeth leol ar gyfer dychweliadau statudol, datblygu polisïau a darparu gwasanaethau. Cânt eu defnyddio hefyd i ddeall y sectorau rhentu preifat, perchen-feddianwyr a rhentu cymdeithasol. Mae diddordeb gennym mewn safbwyntiau ar yr angen am wybodaeth benodol am wahanol fathau o dai cymdeithasol.

### Nifer y ceir neu'r faniau

**Barn gychwynnol:** Angen rhagor o wybodaeth
**Angen hysbys defnyddwyr:** Mae angen ystadegau ar awdurdodau lleol ar nifer y ceir a'r faniau sydd ar gael ar lefel cartrefi ac ar lefelau daearyddol bach, yn ogystal â'u math, er mwyn asesu'r angen am wasanaethau trafnidiaeth, dyrannu cyllid a monitro camau datgarboneiddio. Mae diddordeb gennym mewn safbwyntiau ar gasglu data am argaeledd cerbydau gwersylla a chartrefi modur, ceir trydan neu fathau eraill o gerbydau trydan. Mae diddordeb gennym hefyd yn yr effaith y byddai hyn yn ei chael ar ddefnyddwyr, yn ogystal â ph'un a oes angen gwahaniaethu rhwng bod yn berchen ar gerbydau a'u hargaeledd mewn cartref.

### Cyd-destun ychwanegol ar gyfer y grŵp pwnc tai

Casglwyd data ar wres canolog am y tro cyntaf yn 1991, ac ychwanegwyd cwestiwn ar nifer yr ystafelloedd gwely i ategu'r cwestiwn am nifer yr ystafelloedd yn 2011. Mae gwybodaeth am ddeiliadaeth wedi cael ei chasglu yn y cyfrifiad ers 1961 a gwybodaeth am y math o landlord ers 2001. Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth am ail gyfeiriadau.

Ar gyfer y newidyn math o gartref, er bod rhai ffynonellau data gweinyddol yn cyd-fynd yn rhannol â chategorïau'r cyfrifiad, nid ydynt yn ddigon manwl ac yn aml cânt eu categoreiddio ar lefel yr eiddo yn hytrach na lefel y cartref. Mae bylchau sylweddol mewn cwmpas yn bodoli ac, o ganlyniad, mae defnyddio data gweinyddol ar gyfer y pynciau hyn yn gyfyngedig. Gall cyfuno data gweinyddol a data o arolygon gefnogi amcangyfrifon ar y pynciau hyn.

Mae data gweinyddol yn bodoli ar gyfer perchnogaeth ceir ond maent yn gyfyngedig o ran argaeledd ceir fesul cartref, gan fod llawer o gartrefi yn prydlesu ceir.

## Mudo a dinasyddiaeth

### Gwlad enedigol

**Barn gychwynnol:** Casglu drwy'r cyfrifiad

**Angen hysbys defnyddwyr:** Gellir croes-dablu'r data hyn â newidynnau eraill ar gyfer monitro cydraddoldeb, er mwyn creu proffiliau ardal, targedu gwasanaethau a monitro mudo.

### Mudo rhyngwladol hirdymor

**Barn gychwynnol:** Casglu drwy'r cyfrifiad

**Angen hysbys defnyddwyr:** Caiff gwybodaeth am fudo rhyngwladol hirdymor ei chasglu drwy wybodaeth am wlad enedigol, blwyddyn cyrraedd y Deyrnas Unedig, cyfeiriad flwyddyn yn ôl a bwriad i aros. Mae'n helpu i bennu a yw rhywun yn byw yn y Deyrnas Unedig fel arfer yn ôl diffiniad y Cenhedloedd Unedig (gweler Rhan tri) gan fod y diffiniad yn cwmpasu mudwyr rhyngwladol hirdymor. Mae'r data hyn yn darparu cymhariaeth bwysig ar gyfer sicrhau ansawdd ag amcangyfrifon o fudo rhyngwladol hirdymor yn seiliedig ar ddata gweinyddol. Mae hefyd yn gwahaniaethu rhwng preswylwyr hirdymor sydd wedi mudo i'r wlad a phreswylwyr arferol eraill at ddibenion dadansoddi ac yn ein galluogi i fesur y boblogaeth breswyl arferol yn gywir.

### Symudedd rhyngwladol dros dro

**Barn gychwynnol:** Casglu drwy'r cyfrifiad – hanfodol

**Angen hysbys defnyddwyr:** Mae symudedd rhyngwladol dros dro yn ymwneud â phobl sy'n bwriadu aros yn y Deyrnas Unedig am lai na 12 mis. Mae'n disgrifio mudo byrdymor gan ddefnyddio terminoleg o fframwaith diweddaraf y Cenhedloedd Unedig[21] (Saesneg yn unig). Mae data ar y pwnc hwn yn helpu i wahaniaethu rhwng mudwyr byrdymor a hirdymor ar gyfer amcangyfrifon ac amcanestyniadau poblogaeth y SYG, sy'n llywio ystod eang o benderfyniadau. Mae angen y data hyn

er mwyn deall newidiadau yn y boblogaeth mewn ardaloedd lleol a dyrannu adnoddau'n unol â hynny, yn ogystal â rhagweld y galw am wasanaethau a chyllid. Mae diddordeb gennym ym marn defnyddwyr am ddefnyddio ffynonellau gweinyddol ar gyfer yr amcangyfrifon hyn, yn ogystal ag amcangyfrifon y cyfrifiad.

### Mudo mewnol

**Barn gychwynnol:** Casglu drwy'r cyfrifiad
**Angen hysbys defnyddwyr:** Mae mudo mewnol yn ymwneud â symud rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr, a symud rhwng Cymru a Lloegr a rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Caiff y data hyn eu llywio drwy ofyn am gyfeiriad unigolyn flwyddyn yn ôl. Mae'r data hyn yn darparu cyd-destun ar y boblogaeth sy'n bresennol ar adeg benodol, yn ogystal â data ar darddiadau a chyrchfannau er mwyn deall o ble mae pobl wedi dod ac i ble y maent yn mynd. Maent hefyd yn ein helpu i gynhyrchu gwybodaeth o ansawdd a meincnodi allbynnau mudo mewnol rheolaidd. Mae angen y data hyn er mwyn deall newidiadau yn y boblogaeth mewn ardaloedd lleol a dyrannu adnoddau'n unol â hynny, yn ogystal ag ar gyfer cyllid a rhagweld y galw am wasanaethau. Gall y bydd gallu i groes-dablu'r data hyn â gwybodaeth am nodweddion yn llywio dealltwriaeth o'r galw hwn ymhellach.

### Pasbortau a ddelir

**Barn gychwynnol:** Casglu drwy'r cyfrifiad

**Angen hysbys defnyddwyr:** Caiff y data hyn eu defnyddio gan randdeiliaid amrywiol i asesu symudedd rhyngwladol, asesu nodweddion preswylwyr sydd â chenedligrwydd lluosog, yn ogystal â'r rhai nad oes ganddynt basbortau. Maent yn darparu gwybodaeth am hawliau symud pobl, eu cymhwystra i bleidleisio a'u hawliau i gyflogaeth a buddiannau lles. Maent hefyd yn ein galluogi i fodloni gofynion rhyngwladol ar gyfer casglu gwybodaeth, ac i fesur poblogaethau dinasyddion o wahanol wledydd ar lefel leol. Mae'n bosibl hefyd y gall y data gefnogi dealltwriaeth o boblogaethau sy'n dod i mewn i'r Deyrnas Unedig ag un pasbort ac yn gadael ag un arall, a all greu bylchau mewn amcangyfrifon mudo yn seiliedig ar ddata gweinyddol.

Mae rhai defnyddwyr wedi mynegi bod angen data ar y rheini sydd â mwy nag un pasbort nad yw'n basbort y Deyrnas Unedig nac Iwerddon, neu ar basbortau sydd wedi dod i ben y mae hawl gan unigolion eu hadnewyddu. Rydym yn ymwybodol nad oedd cwestiwn Cyfrifiad 2021 yn ystyried mudwyr sydd wedi dod yn ddinasyddion Prydeinig, y rhai sydd ar Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd neu sydd â chaniatâd amhenodol i aros. At hynny, mae angen cyffredinol i wella'r ffyrdd y caiff

nifer y mudwyr sy'n byw yn y wlad eu mesur. Mae diddordeb gennym mewn safbwyntiau ar yr angen am y data hyn a'r effaith y byddent yn ei chael.

## Cyd-destun ychwanegol ar gyfer y grŵp pwnc mudo a dinasyddiaeth

Cafodd cwestiwn am hyd bwriadedig arhosiad ei gynnwys yn holiadur y cyfrifiad am y tro cyntaf yn 2011. Mae'n rhoi cyd-destun ar ba mor hir y mae mudwyr yn bwriadu aros yn y wlad, gan gynnwys yr amser y maent eisoes wedi'i dreulio yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn galluogi dealltwriaeth o fudo rhyngwladol hirdymor a symudedd rhyngwladol dros dro.

Gofynnwyd cwestiwn am basbortau a ddelir am y tro cyntaf yng Nghyfrifiad 2011 fel procsi ar gyfer dinasyddiaeth, ond mae pynciau eraill yn yr adran hon wedi cael eu cynnwys yn holiaduron y cyfrifiad ers degawdau.

Data gweinyddol yw'r prif ddata sydd wedi cael eu defnyddio i gynhyrchu amcangyfrifon mudo rhyngwladol hirdymor ers 2022. Defnyddiwyd data o Gyfrifiad 2021 ar y cyd â gwybodaeth o ffynonellau gweinyddol i lywio'r gwaith o ailsylfaenu ystadegau am y boblogaeth a mudo ar gyfer y degawd blaenorol. Gwnaethant hefyd ddarparu sicrwydd ansawdd pwysig o ran y dulliau a ddefnyddir wrth gynhyrchu amcangyfrifon mudo yn seiliedig ar ddata gweinyddol.

Mae'r safonau wedi'u cysoni ar gyfer pynciau mudo amrywiol wedi cael eu marcio i'w hadolygu.

Rydym wedi nodi angen am amcangyfrifon amgen a manylach o seiliau poblogaeth gwahanol. Rydym yn ymchwilio i opsiynau ar gyfer cynhyrchu ystadegau ar breswylwyr byrdymor gan ddefnyddio data gweinyddol, er bod y gwaith hwn ar ei gamau cynnar. Ceir rhagor o wybodaeth am seiliau poblogaeth a diffiniadau yn Rhan Tri o'r ddogfen hon.

Ni chaiff data gweinyddol ar gyfer gwlad enedigol eu casglu mewn ffordd safonedig ac mae angen ymchwil bellach i'r ffordd y cânt eu defnyddio. Mae'r ffynonellau data gweinyddol yn casglu gwybodaeth am wlad enedigol, gwlad wreiddiol a chenedligrwydd ar lefelau amrywiol, ond nid ydynt yn gyson o ran eu diffiniad na'u cymhwysiad.

## Ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol

### Grŵp ethnig

**Barn gychwynnol:** Casglu drwy'r cyfrifiad – hanfodol
**Angen hysbys defnyddwyr:** Mae ethnigrwydd yn rhan o nodwedd warchodedig "hil" o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n amlddimensiynol ac yn ystyrlon mewn ffordd oddrychol i unigolion. Caiff data am grwpiau ethnig eu defnyddio ar lefelau daearyddol bach ac yn genedlaethol ar y cyd â phynciau eraill er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau, datblygu polisïau, pwysoli arolygon, ac i fonitro anghydraddoldeb ac ymateb iddo.

Noder bod y SYG yn cynnal ymgynghoriad cyfochrog ar y safon wedi'i chysoni ar gyfer data ar grŵp ethnig. Disgwyliwn i'r cwestiwn perthnasol yn y cyfrifiad gyd-fynd â'r safon hon yng Nghymru a Lloegr. Anogir y sawl sy'n defnyddio'r data hyn i gwblhau'r holiadur cysylltiedig[22], fel y'i disgrifir yn adran Diben yr ymgynghoriad hwn, gan nodi bod ei gynnwys yn wahanol i holiadur yr ymgynghoriad ar bynciau hwn.

## Hunaniaeth genedlaethol

**Barn gychwynnol:** Casglu drwy'r cyfrifiad
**Angen hysbys defnyddwyr:** Mae hunaniaeth genedlaethol yn ymwneud â'r wlad neu'r gwledydd lle mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn neu sy'n teimlo fel cartref iddynt, o fewn y Deyrnas Unedig neu'n rhyngwladol. Gellir defnyddio data ar hunaniaeth genedlaethol i ddeall poblogaethau lleol ac i gynllunio gwasanaethau. Mae rhai defnyddwyr wedi nodi bod angen data manylach er mwyn deall cymunedau penodol a thargedu gwasanaethau ar eu cyfer. Gwahoddir defnyddwyr i nodi'r effaith y mae data ar hunaniaeth genedlaethol yn ei chael ar eu defnyddiau, gan gynnwys ar y cyd â newidynnau eraill. Yn holiadur Cyfrifiad 2021, diweddarwyd trefn yr ymatebion er mwyn symud "Prydeinig" i frig y rhestr o opsiynau

ymateb. Roedd hyn yn berthnasol i Loegr yn unig. Gwahoddir defnyddwyr i wneud sylwadau ar effaith y newid hwn ar eu defnydd o'r data.

### Cyd-destun ychwanegol ar gyfer y pwnc ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol

Casglwyd gwybodaeth am grŵp ethnig am y tro cyntaf yng Nghyfrifiad 1991. Dros amser, mae'r opsiynau ymateb wedi datblygu. Yn 2021, roedd 19 o opsiynau ymateb blwch ticio ar gael, gan gynnwys lle i ysgrifennu ymateb. O ganlyniad, gallem gynnwys 287 o gategorïau o grwpiau ethnig yn ein hallbynnau grŵp ethnig mwyaf manwl.

Mae'r cysyniad ystadegol a gesglir gan y cyfrifiad yn hunangofnodedig a gall fod yn seiliedig ar ddiwylliant, cefndir teuluol, hunaniaeth neu ymddangosiad corfforol unigolyn.

Mae ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol yn agweddau ar hunaniaeth ddiwylliannol person, ynghyd â chrefydd ac iaith. Mae rhyng-gysylltedd cryf rhwng y nodweddion hunaniaeth hyn.

Rydym yn parhau i ymchwilio i ddichonoldeb defnyddio data gweinyddol i gynhyrchu ystadegau ar grwpiau ethnig[23] (Saesneg yn unig). Hyd yn hyn, ni fu'n bosibl gwneud hyn gan ddefnyddio ffynonellau gweinyddol yn unig. Rydym hefyd wedi archwilio'r defnydd o ddata o arolygon er mwyn cynhyrchu amcangyfrifon grŵp ethnig, ond mae meintiau sampl bach yn cyfyngu ar ansawdd a manylder yr amcangyfrifon hyn.

Cyflwynwyd hunaniaeth genedlaethol fel cwestiwn yng Nghyfrifiad 2011. Mae'n asesiad hunangofnodedig o hunaniaeth unigolion eu hunain, sy'n cynnwys y wlad neu'r gwledydd lle maent yn teimlo eu bod yn perthyn, neu sy'n teimlo fel cartref iddynt. Nid yw'n dibynnu ar grŵp ethnig na dinasyddiaeth. Gwnaeth y cwestiwn a ddefnyddiwyd yng Nghyfrifiad 2021, a'r safon wedi'i chysoni, alluogi ymatebwyr i ddewis mwy nag un hunaniaeth genedlaethol.

Nid yw cwmpas data gweinyddol ar hunaniaeth genedlaethol ar draws y boblogaeth yn ddigonol ar hyn o bryd i gasglu gwybodaeth am y pwnc ar y raddfa sydd ei hangen ar gyfer amcangyfrifon manwl.

## Crefydd

**Barn gychwynnol:** Casglu drwy'r cyfrifiad
**Angen hysbys defnyddwyr:** Mae crefydd yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae data am ymlyniad crefyddol yn helpu i ddeall maint poblogaethau crefyddol, cynllunio gwasanaethau a monitro anghydraddoldeb. Rydym yn ymwybodol bod angen gwybodaeth am ymlyniad anghrefyddol ar rai defnyddwyr ac mae diddordeb gennym ym marn defnyddwyr am yr effaith y byddai'r wybodaeth hon yn ei chael. Mae diddordeb gennym hefyd yng ngofynion defnyddwyr o ran gwybodaeth am grefydd ar gyfer ardaloedd daearyddol gwahanol, a'r effaith y gall defnyddwyr ei chyflawni gyda gwybodaeth am ardaloedd daearyddol bach.

### Cyd-destun ychwanegol ar gyfer y pwnc crefydd

Mae crefydd yn agwedd ar hunaniaeth ddiwylliannol person ar y cyd â grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol ac iaith. Mae cwestiwn gwirfoddol am grefydd wedi cael ei ofyn yn y cyfrifiad ers 2001. Roedd y cwestiwn yng Nghyfrifiad 2021 yn cyd-fynd â safon wedi'i chysoni gyfredol Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth.

Yng Nghymru a Lloegr, caiff data eu casglu ar ymlyniad crefyddol fel arfer yn hytrach na chred neu arfer crefyddol, gan ei fod yn cyd-fynd yn agosach â'r safon wedi'i chysoni a dyma sydd fwyaf cymaradwy â data cyfrifiadau blaenorol.

Nid yw cwmpas data gweinyddol ar grefydd yn ddigonol ar hyn o bryd i gasglu gwybodaeth am y pwnc ar y raddfa sydd ei hangen ar gyfer amcangyfrifon manwl.

## Iaith

### Prif iaith

**Barn gychwynnol:** Casglu drwy'r cyfrifiad
**Angen hysbys defnyddwyr:** Caiff data ar brif iaith eu defnyddio gan lywodraeth leol a chanolog i ddeall poblogaethau lleol. Cânt eu defnyddio ar y cyd â newidynnau eraill fel iechyd ac anabledd, er mwyn deall y gwasanaethau a ddarperir a'u targedu. Mae ffyrdd gwahanol o ddiffinio prif iaith (er enghraifft, iaith gyntaf neu'r iaith a gaiff ei siarad fwyaf yn y cartref) ac mae diddordeb gennym ym marn

defnyddwyr o ran pa ddiffiniad sydd ei angen. Mae diddordeb gennym hefyd mewn p'un a oes angen data ar amlieithrwydd ar lefel unigolion neu o fewn teuluoedd, a'r effaith y byddai'r data hyn yn ei chael.

### Hyfedredd Saesneg

**Barn gychwynnol:** Casglu drwy'r cyfrifiad
**Angen hysbys defnyddwyr:** Mae angen data ar awdurdodau lleol ar hyfedredd Saesneg ar gyfer ardaloedd daearyddol bach er mwyn targedu gwasanaethau. Caiff y data hyn eu defnyddio i ddeall tueddiadau mewn gallu Saesneg rhwng grwpiau o'r boblogaeth, ac ardaloedd daearyddol, drwy eu cysylltu â'r data ar brif iaith. Fel gyda phrif iaith, mae angen y data hyn ar rai defnyddwyr ar lefel is na lefel awdurdod lleol oherwydd maint mawr rhai awdurdodau lleol. Mae rhai defnyddwyr wedi mynegi diddordeb mewn deall achosion lle mae unigolion yn defnyddio eu sgiliau Saesneg ar ran eraill yn eu cartref neu eu teulu. Mae diddordeb gennym yn yr effaith y byddai'r data hyn yn ei chael ar ddefnyddwyr.

### Sgiliau Cymraeg

**Barn gychwynnol:** Casglu drwy'r cyfrifiad (Cymru yn unig)
**Angen hysbys defnyddwyr:** Mae llywodraeth leol a chanolog yng Nghymru yn defnyddio data ar siaradwyr Cymraeg a'u hyfedredd er mwyn deall poblogaethau lleol a thargedu gwasanaethau. Caiff y data hyn eu defnyddio i fesur cynnydd o ran cyflawni strategaeth

Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru hefyd. Rydym yn ymwybodol bod Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025[24] yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio cod sy'n sefydlu dull safonol o ddisgrifio nodweddion defnyddwyr y Gymraeg. Gall hyn olygu bod angen defnyddio dull casglu gwahanol. Mae diddordeb gennym ym marn defnyddwyr am hyn mewn perthynas â chofnodi sgiliau Cymraeg yn y cyfrifiad.

### Cyd-destun ychwanegol ar gyfer y grŵp pwnc iaith

Mae iaith yn agwedd ar hunaniaeth ddiwylliannol person ar y cyd â grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol a chrefydd.

Dim ond yng Nghymru mae'r cwestiwn am sgiliau Cymraeg wedi cael ei ofyn erioed. Gofynnodd Cyfrifiad 2021 i ymatebwyr nodi eu gallu i siarad Cymraeg, darllen Cymraeg, ysgrifennu Cymraeg a/neu ddeall Cymraeg llafar, ac mae'r dull gweithredu hwn yn cyd-fynd â'r safon wedi'i chysoni gyfredol.

Nid yw ffynonellau gweinyddol ynghylch y Gymraeg yn ddigonol ar eu pen eu hunain eto i ddiwallu anghenion defnyddwyr. Caiff arolygon eu defnyddio i amcangyfrif gallu yn y Gymraeg y tu allan i gyfrifiad, ond mae'r diffyg diffiniad clir o ran gallu yn y Gymraeg yn arwain at anghysondeb wrth gasglu a dehongli data. Rydym yn parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru i wella dyluniad yr arolwg a'r pwysoli.

Rydym wedi nodi ffynonellau gweinyddol amrywiol sy'n cynnwys data ar brif iaith, ond nid yw'r ffynonellau hyn yn ddigonol ar eu pen eu hunain i gynhyrchu amcangyfrifon sy'n diwallu anghenion defnyddwyr. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod potensial i ddull sy'n cyfuno data gweinyddol a data o arolygon. Rydym yn ymwybodol nad oedd yr opsiynau ymateb a oedd ar gael yn y cwestiwn ar iaith yng Nghyfrifiad 2021 yn diwallu anghenion rhai defnyddwyr.

## Cyfeiriadedd rhywiol

**Barn gychwynnol:** Casglu drwy'r cyfrifiad
**Angen hysbys defnyddwyr:** Mae cyfeiriadedd rhywiol yn nodwedd warchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010). Caiff data manwl am gyfeiriadedd rhywiol eu defnyddio ar gyfer ardaloedd daearyddol bach ac yn genedlaethol, ac ar y cyd â newidynnau eraill, er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau, datblygu polisïau ac i fonitro anghydraddoldeb ac ymateb iddo.

### Cyd-destun ychwanegol ar gyfer y pwnc cyfeiria-dedd rhywiol

Term cyffredinol yw cyfeiriadedd rhywiol sy'n cwmpasu hunaniaeth, atyniad ac ymddygiad rhywiol. Mae'r cwestiwn am gyfeiriadedd rhywiol yn gwestiwn gwirfoddol. Cafodd ei ofyn am y tro cyntaf yn 2021 ac i bobl 16 oed a throsodd yn unig.

Mae data ar gyfeiriadedd rhywiol mewn ffynonellau gweinyddol yn gyfyngedig iawn. Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn darparu gwybodaeth am y pwnc hwn, ond mae ganddo gyfyngiadau o ran cwmpas a manylder. Canfuwyd nad yw'r ffynonellau hyn yn ddigon i ddiwallu anghenion defnyddwyr ar eu pen eu hunain.

Diwygiodd Cyfrifiad 2021 y safon wedi'i chysoni wrth roi cwestiwn am gyfeiriadedd rhywiol ar waith yn dilyn ymchwil newydd. Rydym yn disgwyl i'r safon wedi'i chysoni ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol gael ei hadolygu ymhellach dros y blynyddoedd nesaf mewn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr, sy'n cynnwys ymatebion i'r ymgynghoriad hwn.

## Hunaniaeth rhywedd

**Barn gychwynnol:** Angen rhagor o wybodaeth
**Angen hysbys defnyddwyr:** Mae hunaniaeth rhywedd yn gysylltiedig â nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gweler y Cyd-destun ychwanegol). Gan ymateb i'r angen am wybodaeth am y boblogaeth drawsryweddol, gwnaeth y SYG gynnwys cwestiwn newydd am hunaniaeth rhywedd yng Nghyfrifiad 2021. Gwnaethom geisio darparu data manwl ar hunaniaeth rhywedd ar gyfer ardaloedd daearyddol bach ac yn genedlaethol, ar y cyd â newidynnau eraill, er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau, datblygu polisïau ac i fonitro anghydraddoldeb ac ymateb iddo. Er ein

bod yn defnyddio'r term "hunaniaeth rhywedd" fel term cyffredinol ar gyfer y maes pwnc hwn, mae amrywiaeth o gysyniadau y gallai cwestiwn geisio mynd i'r afael â nhw yn fwy penodol. Rydym hefyd yn ymwybodol nad yw rhai rhanddeiliaid yn cytuno bod hunaniaeth rhywedd yn gysyniad dilys. Wrth ymateb i gwestiynau ar y pwnc hwn, gwahoddir defnyddwyr i ddarparu gwybodaeth am b'un a yw cysyniad penodol yn diwallu eu hanghenion orau.

> Noder bod safon wedi'i chysoni ar gyfer y pwnc hwn wrthi'n cael ei datblygu (gweler y cynllun gwaith ar gyfer cysoni a ddiweddarwyd ym mis Rhagfyr 2024[25]) (Saesneg yn unig). Mae'r gwaith hwnnw ar y cam darganfod a chaiff ei lywio gan wybodaeth berthnasol o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn hefyd.

### Cyd-destun ychwanegol ar gyfer y pwnc hunaniaeth rhywedd

Bwriad camau'r SYG i gasglu gwybodaeth am hunaniaeth rhywedd yng Nghyfrifiad 2021 oedd diwallu anghenion am ddata ar bobl sydd â nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae person sydd â'r nodwedd warchodedig hon yn "bwriadu mynd drwy broses (neu ran o broses), yn mynd drwyddi neu wedi mynd drwyddi at ddiben ailbennu rhyw y person hwnnw

drwy newid priodweddau ffisiolegol neu briodweddau eraill sy'n perthyn i ryw". Mae hyn yn ehangach na meddu ar Dystysgrif Cydnabod Rhywedd.

Mae hwn yn faes lle mae normau cymdeithasol ac anghenion ymatebwyr a defnyddwyr wedi datblygu'n gyflym iawn ers yr ymgynghoriad blaenorol ar bynciau'r cyfrifiad yn 2015. Cafodd cwestiwn am hunaniaeth rhywedd ei ychwanegu at Gyfrifiad 2021 er mwyn darparu'r data swyddogol cyntaf ar faint y boblogaeth drawsryweddol yng Nghymru a Lloegr. Roedd y cwestiwn gwirfoddol yn gofyn i ymatebwyr 16 oed a throsodd a oedd y rhywedd roeddent yn uniaethu ag ef yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd pan gawsant eu geni. Nodwyd patrymau yn y data a oedd yn awgrymu ei bod yn bosibl na wnaeth rhai ymatebwyr ddehongli'r cwestiwn am hunaniaeth rhywedd yng Nghyfrifiad 2021 fel y'i bwriadwyd, a'r rheini sydd â lefelau is o hyfedredd Saesneg yn arbennig. O ganlyniad, cafodd data Cyfrifiad 2021 ar hunaniaeth rhywedd eu hailddosbarthu[26] (Saesneg yn unig) fel ystadegau swyddogol sydd wrthi'n cael eu datblygu yn 2024.

Yng nghyfrifiad yr Alban yn 2022, gofynnwyd cwestiwn am 'statws neu hanes traws', a oedd yn wahanol i'r cwestiwn yng Nghymru a Lloegr. Er y disgwyliwyd rhai gwahaniaethau o ran y data a gasglwyd, darparodd y ddau gwestiwn amcangyfrifon cyson ar y cyfan ar lefel genedlaethol.

Mae data gweinyddol a ffynonellau arolwg amgen ar y pwnc hwn yn gyfyngedig iawn.

## Iechyd, anabledd a gofal di-dâl

### Anabledd a chyflyrau iechyd hirdymor

**Barn gychwynnol:** Casglu drwy'r cyfrifiad

**Angen hysbys defnyddwyr:** Mae anabledd yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n ymwneud â chyflyrau iechyd hirdymor sy'n cael effaith negyddol ar y gallu i wneud gweithgareddau dyddiol arferol. Nodwyd bod gwybodaeth am gyffredinrwydd anabledd neu gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor ar lefelau data yn ddangosydd cryf o'r angen am wasanaethau iechyd a chymdeithasol. Mae gwybodaeth am nifer y bobl anabl neu'r rhai sydd â chyflyrau iechyd hirdymor, a'u dosbarthiad, wedi'i chyfuno â phynciau eraill, yn helpu i ddeall maint y poblogaethau hyn. Mae hyn yn helpu i ddyrannu adnoddau, targedu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a monitro anghydraddoldeb ac ymateb iddo. Gall hefyd helpu defnyddwyr i ddeall rhesymau a allai gyfrannu at anweithgarwch yn y gweithlu.

Nodwn fod gan rai defnyddwyr anghenion sy'n cyd-fynd â dealltwriaeth model cymdeithasol o anabledd, ac rydym wedi dechrau archwilio hyn fel rhan o'r adolygiad o safonau wedi'u cysoni[27] (Saesneg yn unig). Mae diddordeb gennym ym marn defnyddwyr am yr effaith y mae'r dull gweithredu presennol (a

ddisgrifir yn yr adran cyd-destun ychwanegol ar gyfer pynciau iechyd) yn ei chael ar y ffyrdd y caiff y data eu defnyddio. Gwahoddir ymatebwyr i nodi bod Rhan Dau yn cynnwys pwnc newydd posibl (Math o gyflwr iechyd, amhariad neu anabledd).

### Iechyd cyffredinol

**Barn gychwynnol:** Angen rhagor o wybodaeth
**Angen hysbys defnyddwyr:** Asesiad hunan-ganfyddedig o gyflwr cyffredinol iechyd unigolyn yw iechyd cyffredinol. Caiff ei ddefnyddio i helpu i gynllunio gwasanaethau a ddarperir ac ymyriadau, i gyfrifo disgwyliad oes iach ac anghydraddoldebau iechyd, ac fel dangosydd iechyd ar lefelau daearyddol bach. Mae diddordeb gennym mewn safbwyntiau o ran a yw asesiad hunan-ganfyddedig o iechyd cyffredinol unigolion yn gysyniad defnyddiol i'w gefnogi.

### Gofal di-dâl

**Barn gychwynnol:** Casglu drwy'r cyfrifiad
**Angen hysbys defnyddwyr:** Caiff gwybodaeth am nifer y gofalwyr di-dâl, a nifer yr oriau o ofal di-dâl a ddarperir, ei defnyddio gan elusennau, llywodraeth leol a chanolog er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau ac i ddatblygu polisïau. Gellir defnyddio'r data hyn ar y cyd â gwybodaeth am nodweddion eraill unigolion a chartrefi er mwyn monitro anghydraddoldeb ac ymateb iddo. Mae rhai defnyddwyr wedi mynegi bod angen data manylach arnynt, er mwyn teilwra gwasanaethau. Yn benodol,

cydberthynas y gofalwr â'r person sy'n cael gofal, y rolau yr ymgymerir â nhw, a ph'un a yw'r gofal yn cael ei ddarparu yn y cartref neu'r tu allan iddo.

### Cyd-destun ychwanegol ar gyfer y grŵp pwnc iechyd, anabledd a gofal di-dâl

Ers 1991, mae cwestiynau wedi cael eu gofyn yn y cyfrifiad i nodi pobl sydd â salwch hirdymor ac anabledd. Cafodd cwestiynau am iechyd cyffredinol a gofal di-dâl eu cynnwys gyntaf yng Nghyfrifiad 2001.

Casglodd Cyfrifiad 2021 ddata ar anabledd a chyflyrau iechyd hirdymor drwy ddau gwestiwn. Gofynnodd un am gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol sydd wedi para 12 mis neu fwy, a gofynnodd y llall sut roedd y rhain yn cyfyngu ar weithgareddau pob dydd. Roedd y rhain yn cyd-fynd â'r cwestiwn unigol a ofynnwyd yng Nghyfrifiad 2011, ac â dwy o'r tair safon wedi'u cysoni ar gyfer mesur anabledd, sy'n cyd-fynd yn gyffredinol â'r diffiniad yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r dull gweithredu hwn yn helpu i gynhyrchu data ar anabledd a chyflyrau iechyd hirdymor.

Mae data ar anabledd ar gael ar draws ffynonellau data gwahanol llywodraeth ganolog, ond mae'r diffiniadau a'r ansawdd yn amrywio. Rydym wedi dechrau ystyried hyfywedd ffynonellau amgen ar gyfer cynhyrchu amcangyfrifon anabledd.

Mewn perthynas ag iechyd cyffredinol, nid yw ffynonellau gweinyddol sydd eisoes yn bodoli yn galluogi mesur hunan-ganfyddedig o iechyd

cyffredinol gan nad yw'r ffynonellau hyn yn casglu'r wybodaeth hon. Fodd bynnag, gallai mesur gwahanol o iechyd cyffredinol (heb fod yn hunangofnodedig/ hunan-ganfyddedig) fod yn ddichonadwy gan ddefnyddio data gweinyddol.

Yng Nghyfrifiad 2021, diffiniwyd gofal di-dâl fel gofalu am unrhyw un, neu roi help neu gefnogaeth i unrhyw un sydd â chyflwr neu salwch corfforol neu feddyliol hirdymor, neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint. Nid oedd hyn yn cynnwys gweithgareddau cyflogaeth sy'n gysylltiedig â gofal y telir amdanynt. Gofynnwyd i ymatebwyr gynnwys unrhyw help neu gymorth maent yn ei roi i rywun sy'n sâl, yn oedrannus neu'n methu ymdopi ar ei ben ei hun.

Nid oes un ffynhonnell data gweinyddol sy'n bodloni diffiniad y cyfrifiad yn llawn. Rydym wedi nodi bod angen gwneud rhagor o waith i asesu ansawdd ffynonellau gweinyddol ac ystyried strategaethau arolygon er mwyn cynhyrchu amcangyfrifon amlach am ofal di-dâl.

## Addysg

### Cymwysterau

**Barn gychwynnol:** Casglu drwy'r cyfrifiad

**Angen hysbys defnyddwyr:** Mae deall y lefel uchaf o gymhwyster sydd gan unigolion yn helpu i dargedu rhaglenni sgiliau cyflogadwyedd a deall effeithiolrwydd polisïau addysg, gan gynnwys nodi gwahaniaethau rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad

amlamrywedd ar y cyd â newidynnau eraill. Mae'r data hyn hefyd yn bwysig i ddeall symudedd cymdeithasol. Rydym hefyd yn nodi angen penodol defnyddwyr am ddata ar y rheini heb unrhyw gymwysterau er mwyn deall anghydraddoldebau. Mae hyn yn helpu i sicrhau cynhwysiant wrth gynllunio a darparu gwasanaethau, drwy nodi meysydd sydd â chrynodiad o bobl â sgiliau is neu heb gymwysterau. Mae rhai defnyddwyr hefyd wedi mynegi angen clir i ddadgyfuno gwahanol fathau o brentisiaethau a graddau, a'r llwybrau y mae unigolion yn eu cymryd tuag at gymwysterau lefel uwch.

### Statws myfyriwr a chyfeiriad yn ystod y tymor

**Barn gychwynnol:** Casglu drwy'r cyfrifiad – hanfodol

**Angen hysbys defnyddwyr:** Mae nodi plant ysgol a myfyrwyr sydd mewn addysg amser llawn, a sicrhau eu bod yn cael eu cyfrif yn y cyfeiriad cywir yn llywio prosesau dyrannu adnoddau o fewn llywodraeth ganolog a llywodraeth leol. Mae'n cynorthwyo gyda gwaith cynllunio trefol ar gyfer llety myfyrwyr ar lefel awdurdod lleol. Mae gwybodaeth am gyfeiriadau myfyrwyr yn cefnogi prosesau cyfrif. Mae diddordeb gennym ym marn defnyddwyr am ba fanteision all gael eu gwireddu drwy ddata ar bobl sydd mewn addysg ran-amser neu sy'n ymgymryd â hyfforddiant anffurfiol.

### Cyd-destun ychwanegol ar gyfer y grŵp pwnc addysg

Mae ffynonellau gweinyddol yn bodoli ar gyfer cymwysterau'r Deyrnas Unedig, ond nid yw cymwysterau a gaiff eu hennill yn rhyngwladol yn cael eu cwmpasu gystal. Byddai angen gwneud gwaith ymchwil pellach i werthuso ansawdd y ffynonellau data hyn ac archwilio strategaethau modelu ar y cyd â data o arolygon er mwyn cynhyrchu amcangyfrifon heb ddefnyddio'r cyfrifiad.

Mae data gweinyddol ar gyfer statws myfyrwyr – gan gynnwys plant ysgol, myfyrwyr addysg bellach ac addysg uwch – yn addawol gan eu bod o ansawdd da. Fodd bynnag, gall rhai grwpiau fod ar goll, er enghraifft plant sy'n cael eu haddysgu gartref. Yn yr un modd, ar gyfer data gweinyddol am gymwysterau, mae'n bosibl y bydd y rhai a enillodd gymwysterau dramor ar goll.

## Y farchnad lafur

Fel rheol, caiff cwestiynau am y rhan fwyaf o'r pynciau yn yr adran hon eu gofyn i unigolion sydd mewn gwaith ar hyn o bryd. Os na fydd unigolyn yn gweithio, gofynnir iddo ateb mewn perthynas â'i brif swydd ddiwethaf fel arfer.

Rydym wedi gweld cynnydd mewn patrymau gwaith cymhleth dros y blynyddoedd diwethaf, fel pobl yn gweithio mewn sawl swydd (er enghraifft, yn yr economi gìg) neu weithwyr hybrid a phobl sy'n

gweithio o gartref yn unig. Rydym yn ymwybodol bod hyn yn debygol o effeithio ar ddata ar y farchnad lafur a theithio i'r gwaith. Rydym yn gwahodd defnyddwyr i fynegi eu barn am hyn drwy gwblhau'r cwestiynau perthnasol yn holiadur yr ymgynghoriad, a nodi unrhyw anghenion ychwanegol ar gyfer data ar y pynciau hyn, a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar eu defnydd o'r data.

### Gweithgarwch economaidd

**Barn gychwynnol:** Casglu drwy'r cyfrifiad

**Angen hysbys defnyddwyr**: Mae data ar weithgarwch economaidd yn cwmpasu cyflogaeth, diweithdra ac anweithgarwch economaidd (pobl nad ydynt yn y farchnad lafur ac nad ydynt yn chwilio am waith). Mae'n darparu gwybodaeth am farchnadoedd llafur lleol, hanes cyflogaeth, oriau gwaith fesul wythnos a hyd gyfnodau o ddiweithdra er mwyn datblygu polisïau ar lefelau lleol a rhanbarthol. Ar y cyd â newidynnau eraill, mae hyn yn ddefnyddiol er mwyn deall tueddiadau yn y farchnad lafur a llywio polisïau a buddsoddiadau. Mae diddordeb gennym mewn safbwyntiau ar yr angen am ddata o'r cyfrifiad ar wirfoddoli a'u heffaith bosibl.

### Diwydiant

**Barn gychwynnol:** Casglu drwy'r cyfrifiad

**Angen hysbys defnyddwyr:** Mae data ar ddiwydiant a galwedigaeth, wedi'u croesdablu â data ar weithle a thrafnidiaeth, yn cefnogi gwaith dadansoddi ar gyfer

cynllunio trafnidiaeth. Gall croesdablu galwedigaeth â diwydiant ar lefelau daearyddol bach helpu i nodi cyfleoedd am dwf i gefnogi polisi'r farchnad lafur. Rydym yn bwriadu cynhyrchu Dosbarthiad Diwydiannol Safonol y Deyrnas Unedig (SIC2026) erbyn mis Mawrth 2026, gan ddiwygio'r UK SIC2007 presennol. Disgwylir y byddai hyn yn llywio'r gwaith o godio data ar ddiwydiant o Gyfrifiad 2031.

### Galwedigaeth

**Barn gychwynnol:** Casglu drwy'r cyfrifiad
**Angen hysbys defnyddwyr:** Caiff data ar alwedigaeth eu defnyddio gan randdeiliaid amrywiol i ddiffinio statws economaidd-gymdeithasol a monitro amddifadedd ac anghydraddoldeb drwy gysylltu â nodweddion eraill er mwyn dadansoddi. Caiff gwybodaeth am alwedigaeth ei defnyddio â gwybodaeth arall am y farchnad lafur er mwyn deall perfformiad economaidd a dadansoddi marchnadoedd llafur lleol. Mae hyn yn llywio strategaethau economaidd a datblygu cymunedol lleol, ac yn dylanwadu ar brosesau dyrannu adnoddau llywodraeth ganolog a llywodraeth leol. Caiff ei defnyddio gyda newidynnau eraill, gan gynnwys statws goruchwylio, i bennu'r newidyn Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SEC). Defnyddir NS-SEC i ddeall anghydraddoldebau ac ymdrin â nhw ac i olrhain gwelliant mewn symudedd cymdeithasol er mwyn asesu effaith polisïau'r llywodraeth. Rydym yn croesawu safbwyntiau o ran

a yw'r dull presennol o gynhyrchu data NS-SEC yn diwallu anghenion. Gan ategu NS-SEC, mae rhai defnyddwyr wedi mynegi diddordeb yn y ffordd y gall data'r cyfrifiad gefnogi dealltwriaeth o radd gymdeithasol. Gwahoddir defnyddwyr i esbonio eu hanghenion yn hyn o beth a'r effaith y byddai'r data hyn yn ei chael.

### Cyd-destun ychwanegol ar gyfer grŵp pwnc y farchnad lafur

Mae newidynnau yng ngrŵp pwnc y farchnad lafur wedi cael eu cynnwys yn y cyfrifiad ers sawl degawd. Caiff sawl un o'r newidynnau hyn eu defnyddio i bennu NS-SEC, sy'n ffordd bwysig o fesur symudedd cymdeithasol.

Mae ffynonellau gweinyddol wedi dangos rhywfaint o addewid o ran cynhyrchu amcangyfrifon yn seiliedig ar ddata gweinyddol mewn perthynas â rhai o'r pynciau hyn. Fodd bynnag, ni chaiff gwybodaeth ei chasglu ar lefel yr unigolyn bob amser, ni chaiff gwybodaeth am gyflogaeth anffurfiol ei chynnwys mewn data gweinyddol, a byddai'n heriol cydlynu amcangyfrifon yn seiliedig ar ddata gweinyddol â diffiniadau rhyngwladol. Mae data ar alwedigaeth yn rhywbeth nodedig sydd ar goll mewn llawer o ffynonellau gweinyddol. Er bod rhai ffynonellau yn bodoli, fel arfer nid ydynt yn cwmpasu llawer o'r boblogaeth neu ni ellir eu mapio yn unol â chodau gofynnol y Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol, neu'r ddau. O ganlyniad, mae ansawdd y data hyn yn aml yn

isel neu'n anaddas ar gyfer anghenion y SYG. Mae hyn yn effeithio ar y gallu i gynhyrchu mesur NS-SEC yn seiliedig ar ddata gweinyddol, er y gall mesur amgen yn seiliedig ar ddata ar gymwysterau ac incwm fod yn ddichonadwy.

Mae potensial i ddefnyddio data gweinyddol ar gyfer amcangyfrifon sy'n ymwneud â diwydiant. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau o ran cydlyniant, cywirdeb, a chysylltu ar lefel yr unigolyn yn golygu na fyddant o bosibl yn diwallu anghenion defnyddwyr ar eu pen eu hunain.

## Teithio i'r gwaith

Rydym wedi gweld cynnydd mewn patrymau gwaith cymhleth dros y blynyddoedd diwethaf, fel pobl yn gweithio mewn sawl swydd (er enghraifft, yn yr economi gìg), gweithwyr hybrid a phobl sy'n gweithio o gartref yn unig. Rydym yn ymwybodol bod hyn yn debygol o effeithio ar ddata ar y farchnad lafur a theithio i'r gwaith. Rydym yn gwahodd defnyddwyr i fynegi eu barn am hyn drwy gwblhau'r cwestiynau perthnasol yn holiadur yr ymgynghoriad, a nodi unrhyw anghenion ychwanegol ar gyfer data ar y pynciau hyn, a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar eu defnydd o'r data.

### Prif ddull o deithio i'r gweithle

**Barn gychwynnol:** Angen rhagor o wybodaeth
**Angen hysbys defnyddwyr**: Mae angen data ar ddefnyddwyr ynghylch llifau cymudo, yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r ffordd y mae pobl yn tueddu i

deithio i’r gwaith, er mwyn llywio polisïau a chynllunio gwasanaethau trafnidiaeth. Caiff y data eu defnyddio hefyd i ddeall allyriadau carbon er mwyn monitro amcanion datgarboneiddio. Gall croesdablu data teithio â nodweddion personol dynnu sylw at fynediad cyfyngedig i fathau o drafnidiaeth i rai grwpiau o’r boblogaeth. Mae diddordeb gennym mewn safbwyntiau ar yr angen am wybodaeth am y canlynol, ac effaith bosibl y wybodaeth honno: y defnydd o gynlluniau llogi beiciau neu e-sgwteri sydd bellach yn gyffredin mewn llawer o ddinasoedd yng Nghymru a Lloegr; y gallu i wahaniaethu rhwng bod yn berchen ar gerbydau a’u bod ar gael i gartref; a gwybodaeth am sawl diwrnod y mae gweithwyr hybrid yn teithio i’r gwaith ac ar ba ddiwrnodau y maent yn gwneud hynny.

### Cyfeiriad y gweithle

**Barn gychwynnol:** Casglu drwy’r cyfrifiad
**Angen hysbys defnyddwyr:** Mae’r data hyn yn darparu gwybodaeth gan gynnwys tablau tarddiad a chyrchfan, gan helpu i ddeall parthau a phatrymau cymudo, gan gynnwys gweithio gartref, a phoblogaethau yn ystod y dydd. Mae hyn yn llywio polisïau, gwasanaethau trafnidiaeth a gwaith cynllunio seilwaith. Maent hefyd yn darparu cyd-destun ar bellter cymudo at ddiben ymchwil ar allyriadau carbon. Ynghyd â gwybodaeth am deithio i’r gwaith, mae’r data hyn ar gyfeiriad y gweithle yn ein galluogi i gynhyrchu daearyddiaeth yr Ardal Teithio i’r Gwaith. Maent hefyd yn helpu awdurdodau lleol i werthuso patrymau teithio

disgwyliedig ac amseroedd disgwyliedig teithiau. Mae diddordeb gennym mewn safbwyntiau ar b'un a oes galw gan ddefnyddwyr am wybodaeth am deithio dyddiol heblaw at ddiben gwaith, er enghraifft ar gyfer astudio, gofalu neu am resymau eraill, a pha effaith y byddai'r wybodaeth hon yn ei chael.

### Cyd-destun ychwanegol ar gyfer y grŵp pwnc teithio i'r gwaith

Mae cwestiynau am deithio i'r gwaith wedi cael eu gofyn yn y cyfrifiad ers sawl degawd. Effeithiodd cyfyngiadau a oedd yn gysylltiedig â phandemig y coronafeirws ar y data ar deithio i'r gwaith a gasglwyd yng Nghyfrifiad 2021, gan fod llawer o bobl yn gweithio gartref neu ar ffyrlo o ganlyniad i'r pandemig.

Nid oes unrhyw ddata gweinyddol yn diwallu'r ystod lawn o anghenion defnyddwyr o ran data ar gyfeiriad y gweithle ar hyn o bryd. Arolygon yw'r unig ffynhonnell hyfyw ar gyfer rhai newidynnau, yn enwedig y dull teithio.

## Cyn-filwyr lluoedd arfog y Deyrnas Unedig

**Barn gychwynnol:** Angen rhagor o wybodaeth
**Angen hysbys defnyddwyr:** Mae angen data ar boblogaeth cyn-filwyr lluoedd arfog y Deyrnas Unedig a'u teuluoedd ar lywodraeth leol a llywodraeth ganolog er mwyn targedu gwasanaethau, adnoddau ac i ddadansoddi yn erbyn nodweddion eraill. Cafodd y cwestiwn am gyn-filwyr lluoedd arfog y Deyrnas Unedig ei ofyn am y tro cyntaf yng Nghyfrifiad 2021,

er mwyn ein galluogi i ddiwallu anghenion darparwyr gwasanaethau ac eraill sy'n cefnogi cyn-filwyr yn well, yn unol â Chyfamod y Lluoedd Arfog[28] (Saesneg yn unig).

## Cyd-destun ychwanegol ar gyfer pwnc cyn-filwyr lluoedd arfog y Deyrnas Unedig

Mae data gweinyddol ar gyfer y pwnc hwn yn dangos addewid; cafodd data ar y boblogaeth cyn-filwyr ar gyfer canol 2023[29] (Saesneg yn unig) eu rhyddhau ym mis Awst 2025 fel ystadegau swyddogol sydd wrthi'n cael eu datblygu, gan ddefnyddio data gweinyddol o'r gronfa ddata ar y rhai sy'n gadael y lluoedd arfog (SLD) wedi'u cysylltu â Chyfrifiad 2021. Roedd y bylchau mewn data gweinyddol yn bennaf ar gyfer y rheini y daeth eu gwasanaeth gyda'r lluoedd arfog i ben cyn 1975, ond casglodd Cyfrifiad 2021 ddata am gannoedd ar filoedd o gyn-filwyr a wasanaethodd cyn 1975. Gallai'r cyfuniad o ddata cyfredol o'r SLD a data presennol o Gyfrifiad 2021 fod yn ddigonol i ddiwallu anghenion defnyddwyr yn y dyfodol felly heb gynnwys y pwnc hwn yng Nghyfrifiad 2031, ond mae angen gwneud ymchwil bellach cyn y gwneir penderfyniad.

Mae'r data yn darparu gwybodaeth am gyn-filwyr a ph'un a wnaethant wasanaethu yn y Lluoedd Arfog Rheolaidd neu'r Lluoedd Arfog Wrth Gefn. Maent hefyd yn cynnwys aelodau o'u teuluoedd (sydd hefyd wedi'u cynnwys yn y Cyfamod), ond dim ond pan fyddant yn byw gyda'r cyn-filwr. Mae diddordeb gennym mewn safbwyntiau o ran a yw anghenion defnyddwyr yn mynd y tu hwnt i hyn.

## Rhan Dau: pynciau newydd posibl

Pynciau newydd posibl yw'r rhain lle mae angen rhagor o wybodaeth i wneud asesiad.

Gallwch ddod o hyd i'r cwestiynau cysylltiedig ar gyfer y pynciau hyn yn adran "Gofynion ar gyfer data ar byncïau na chawsant eu casglu o'r blaen" o'r holiadur yn Atodiad A. Gallwch hefyd awgrymu pynciau ychwanegol yn yr adran hon o'r holiadur.

### Math o gyflwr iechyd, amhariad neu anabledd

**Barn gychwynnol:** Angen rhagor o wybodaeth

**Angen hysbys defnyddwyr:** Mae rhai defnyddwyr wedi mynegi diddordeb mewn casglu data ar amhariadau penodol neu fathau penodol o anabledd, a gwahanu data ar gyflyrau iechyd corfforol a meddyliol. Byddai hyn yn cyd-fynd â'r hyn a gasglwyd gan yr Alban a Gogledd Iwerddon yn eu cyfrifiadau'n flaenorol. Gall hyn gwmpasu, er enghraifft, amhariadau ar y golwg, ar y clyw ac amhariadau gwybyddol, niwroamrywiaeth, anabledd dysgu, a chyfyngiadau symudedd, ymhlith cyflyrau eraill. Rydym wedi dechrau archwilio anghenion defnyddwyr yn hyn o beth fel rhan o'n hadolygiad o safonau wedi'u cysoni[30] (Saesneg yn unig). Mae'n bosibl hefyd fod angen deall amlafiachedd a'i effeithiau. Rydym yn gwahodd ymatebion gan ddefnyddwyr o ran eu hanghenion a'r effaith y byddai'r data hyn yn ei chael.

## Incwm

**Barn gychwynnol:** Peidio â chasglu drwy'r cyfrifiad (ceisio diwallu anghenion defnyddwyr drwy ddata gweinyddol)

**Angen hysbys defnyddwyr:** Mae angen data ar incwm (incwm gros ac incwm gwario) ar gyfer unigolion a chartrefi, wedi'u croesdablu â phynciau eraill, at amrywiaeth eang o ddibenion. Mae'r rhain yn cynnwys cynllunio gwasanaethau, a deall anghydraddoldeb ac amddifadedd.

Nid yw gwybodaeth am incwm erioed wedi cael ei chasglu drwy'r cyfrifiad gan fod profion wedi nodi y byddai cwestiwn am incwm yn cael effaith annerbyniol ar gyfraddau ymateb, yn ogystal â phryderon ynglŷn â chywirdeb data. Mae ystadegau incwm sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol wedi dangos addewid da o ran diwallu rhai o anghenion defnyddwyr a gellir eu croesdablu â data'r cyfrifiad yn 2031. Fodd bynnag, mae heriau wrth geisio cofnodi incwm cartrefi ar ôl costau tai. Mae heriau hefyd wrth geisio cwmpasu pob grŵp poblogaeth, gan nad yw data gweinyddol yn cwmpasu pob grŵp poblogaeth yn gyson.

### Cyd-destun ychwanegol ar gyfer y pwnc incwm

Yn ogystal ag ystadegau incwm yn seiliedig ar ddata gweinyddol, mae ystadegau incwm lleol hefyd ar gael ar lefel blociau adeiladu ystadegol (a elwir yn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is), a gaiff eu cynhyrchu yn unol â'r System Cyfrifon Gwladol ac a elwir yn

ystadegau incwm gwario gros aelwydydd[31] (Saesneg yn unig). I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch ein blog Understanding the new income statistics for local areas: Different measures for better insights[32] (Saesneg yn unig).

## Rhan Tri: Seiliau poblogaeth a diffiniadau

Mae'r adran hon yn cyflwyno cwestiynau am ardaloedd daearyddol, diffiniadau a seiliau allbwn, sy'n ymwneud â phynciau gwahanol yn y cyfrifiad. Gwahoddir ymatebwyr i ymateb i gwestiynau am y graddau y mae'r ardaloedd daearyddol a'r diffiniadau presennol yn diwallu eu hanghenion. Rydym hefyd yn gwahodd safbwyntiau ar boblogaethau o fewn sefydliadau cymunedol y mae gan ddefnyddwyr ddiddordeb ynddynt. Caiff y diffiniadau yn yr adran hon eu darparu er mwyn rhoi cyd-destun i alluogi ymatebwyr i ateb y cwestiynau cysylltiedig.

Gallwch ddod o hyd i'r cwestiynau cysylltiedig ar gyfer y diffiniadau hyn yn adrannau "Ardaloedd daearyddol", "Diffiniadau'r cyfrifiad a seiliau poblogaeth" a "Sefydliadau cymunedol" yr holiadur yn Atodiad A.

### Ardaloedd daearyddol

Mae data'r cyfrifiad wedi cael eu cyhoeddi'n gyson ar gyfer amrywiaeth eang o ardaloedd daearyddol. Y blociau adeiladu ar gyfer yr ardaloedd daearyddol hyn yw ardaloedd daearyddol ystadegol y cyfrifiad, a ddatblygwyd gyntaf ar gyfer cyfrifiad 2001: Ardaloedd

Cynnyrch, Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol, fel yr esboniwyd yn ein cyhoeddiad ar ardaloedd daearyddol Cyfrifiad 2021[33] (Saesneg yn unig). Byddem yn disgwyl cynnal yr ardaloedd ystadegol hyn ar gyfer Cyfrifiad 2031 ond, fel yn 2011 a 2021, mae'n bosibl y bydd rhai newidiadau i Ardaloedd Cynnyrch, Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol penodol er mwyn darparu ar gyfer newid yn y boblogaeth ym mhob ardal.

Ar y cyfan, caiff ein hardaloedd daearyddol allbwn eraill eu cynhyrchu o Ardaloedd Cynnyrch ar sail ffit orau. Caiff Ardaloedd Cynnyrch eu defnyddio fel y bloc adeiladu ffit orau. Roedd ein hardaloedd daearyddol ar gyfer Cyfrifiad 2021[34] (Saesneg yn unig) yn cynnwys: gwledydd, rhanbarthau, ardaloedd awdurdod lleol (gan gynnwys haen uwch a haen is lle y bo'n berthnasol yn Lloegr),etholaethau ar gyfer Senedd y DU a Senedd Cymru, wardiau etholiadol, ardaloedd iechyd, plwyfi, cymunedau, parciau cenedlaethol, ac ardaloedd adeiledig.

Mae'r SYG hefyd yn gyfrifol am ddosbarthu ystadegau'r cyfrifiad ar gyfer y DU, gan weithio gydag NRS a NISRA, ac rydym yn gweithio mewn partneriaeth i gynhyrchu'r wybodaeth hon, gan gydnabod pwysigrwydd ystadegau cydlynol ledled y Deyrnas Unedig.

Mae holiadur yr ymgynghoriad yn gwahodd ymatebion mewn perthynas â'r ardaloedd daearyddol sydd bwysicaf i ddefnyddwyr.

## Diffiniad o breswylfa arferol

Ar gyfer ein hystadegau am y boblogaeth a mudo, gan gynnwys cyfrifiadau, y brif boblogaeth sy'n cael ei mesur (y sail boblogaeth) yw pobl sy'n preswylio fel arfer. Rydym yn defnyddio diffiniad safonol y Cenhedloedd Unedig, sef dim ond cynnwys pobl sydd wedi aros, neu sy'n bwriadu aros, mewn gwlad am 12 mis neu fwy, sy'n golygu eu bod yn preswylio fel arfer yn y wlad honno.

Fel rheol man preswylio arferol preswylydd yn y Deyrnas Unedig yw ei gartref parhaol neu gartref y teulu, neu'r cyfeiriad yn y Deyrnas Unedig lle mae'n treulio'r rhan fwyaf o'i amser. Gall preswylydd y Deyrnas Unedig gynnwys preswylydd mewn cartref, preswylydd mewn sefydliad cymunedol, neu rywun sy'n cysgu allan, ymhlith eraill.

## Diffiniad o deulu

Ar gyfer Cyfrifiad 2021, diffiniwyd “teulu” fel cwpwl sy'n briod, mewn partneriaeth sifil neu'n sy'n cyd-fyw â phlant neu lysblant neu hebddynt, neu riant unigol ag o leiaf un plentyn, sy'n byw yn yr un cyfeiriad. Roedd hefyd yn cynnwys taid/tad-cu neu nain/mam-gu sengl neu gwpwl ag wyrion/wyresau, lle nad oedd rhieni'r wyrion/wyresau yn bresennol. Gall plant mewn teulu fod yn blant dibynnol neu'n blant nad ydynt yn ddibynnol. Gall teuluoedd fod yn gyfystyr â chartref, neu gallant fod yn un rhan o gartref mwy.

## Diffiniad o gartref

Ar gyfer Cyfrifiad 2021, gwnaethom ddefnyddio'r diffiniad canlynol o gartref, gyda rhai amrywiadau bach[35] (Saesneg yn unig): naill ai un person sy'n byw ar ei ben ei hun neu grŵp o bobl (nad oes rhaid iddyn nhw fod yn perthyn i'w gilydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad, ac sy'n rhannu cyfleusterau coginio ac ystafell fyw, lolfa neu le bwyta.

## Diffiniad o annedd

Ar gyfer Cyfrifiad 2021, roedd annedd yn cyfeirio at uned hunangynhwysol o lety, er enghraifft tai neu fflatiau, y gall rhywun fod yn byw ynddi neu a all fod yn wag. Mewn annedd, mae pob ystafell (gan gynnwys y gegin, yr ystafell ymolchi a'r toiled) yn y llety y tu ôl i un drws sydd ddim ond yn cael ei ddefnyddio gan aelodau o'r cartref. Mae annedd fel arfer yn cynnwys un cartref, ond caiff y rheini sy'n cynnwys mwy nag un cartref eu rhannu ac fe'u gelwir yn "annedd sy'n cael ei rhannu".

## Diffiniad o breswylydd byrdymor

Mae preswylydd byrdymor o'r Deyrnas Unedig at ddibenion y cyfrifiad yn cynnwys unrhyw un a aned y tu allan i'r Deyrnas Unedig sydd wedi aros, neu sy'n bwriadu aros yn y Deyrnas Unedig am gyfnod o dri mis neu fwy, ond llai na 12 mis.

## Diffiniad o ymwelydd

Ymwelydd domestig yw person sy'n byw yn y Deyrnas Unedig fel arfer, neu breswylydd byrdymor o'r Deyrnas Unedig at ddibenion y cyfrifiad, sy'n aros dros nos ar ddiwrnod y cyfrifiad mewn cyfeiriad lle nad yw'n byw fel arfer.

Ymwelydd rhyngwladol yw person sy'n bwriadu aros yn y Deyrnas Unedig am lai na 3 mis. Fel arfer bydd yn byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig felly bydd ond yn cael ei gyfrif fel ymwelydd.

## Diffiniad o sefydliadau cymunedol a'u cyd-destun

Diffiniwyd sefydliad cymunedol yng Nghyfrifiad 2021 fel sefydliad sy'n darparu llety preswyl wedi'i reoli. Roedd "wedi'i reoli" yn y cyd-destun hwn yn golygu bod y llety'n cael ei oruchwylio drwy'r amser neu am ran o'r amser. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, carchardai, cartrefi gofal, prifysgol a neuaddau preswyl preifat, ysgolion preswyl, llety staff a sefydliadau crefyddol sydd â llety.

Diffiniwyd preswylydd mewn sefydliad cymunedol fel rhywun sydd wedi treulio, neu sy'n bwriadu treulio, 6 mis yn byw mewn sefydliad o'r fath, gyda rhai eithriadau[36] (Saesneg yn unig). Yn 2021, casglwyd y wybodaeth hon mewn perthynas â phobl a oedd yn byw mewn sefydliadau cymunedol a oedd yn

breswylwyr, yn staff neu'n berchnogion, aelodau o deulu neu bartneriaid staff neu berchnogion, a'r rhai a oedd yn aros dros dro heb gyfeiriad arferol yn y Deyrnas Unedig.

Yng Nghyfrifiad 2021, nid oedd sefydliadau cymunedol yn cynnwys unrhyw lety gwarchod, fflatiau a wasanaethir, tai a gaiff eu rhentu i fyfyrwyr gan landlordiaid preifat na llety nyrsys. Nid oeddent 'chwaith yn cynnwys gwestai, tai llety, llety gwely a brecwast na thafarndai sy'n cynnwys llety preswyl oedd â saith gwestai neu lai, y cafodd pob un ohonynt eu diffinio fel cartrefi.

Yn 2021, gofynnwyd i reolwyr sefydliadau cymunedol am natur y sefydliad, pwy sy'n gyfrifol am ei reoli a nifer y bobl sy'n byw yno (neu'n ymweld â'r sefydliad). Yn y cyfamser, gwahoddwyd preswylwyr sefydliadau cymunedol i gwblhau'r holiadur i unigolion llawn. Mae diddordeb gennym mewn safbwyntiau o ran a oedd y dull casglu hwn ar lefel unigolion yn briodol ac yn angenrheidiol ar gyfer pob grŵp poblogaeth sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol. Gwahoddir ymatebwyr i fynegi eu barn am b'un a fyddai is-set o gwestiynau yn ddigonol ar gyfer rhai o boblogaethau sefydliadau cymunedol (gan nodi pa gwestiynau a phoblogaethau).

Rydym yn croesawu ymatebion ynglŷn â'r ffordd y caiff data am sefydliadau cymunedol a'u preswylwyr eu defnyddio a'u heffaith. Rydym yn gwahodd safbwyntiau o ran a wnaeth y wybodaeth a gasglwyd

yn 2021 ddiwallu anghenion defnyddwyr neu ragori arnynt, ac a ddylai unrhyw wybodaeth arall gael ei chasglu yn ogystal â hyn. Er enghraifft, gall hyn gynnwys cydberthnasau teuluol o fewn sefydliadau cymunedol, data am wresogi sefydliadau cymunedol a'u cyfleusterau, deiliadaeth preswylwyr, neu bresenoldeb poblogaethau agored i niwed. Yn ogystal, mae diddordeb gennym mewn safbwyntiau o ran pa wybodaeth y mae gan ddefnyddwyr y diddordeb mwyaf yn ei nodi am breswylwyr sefydliadau cymunedol.

Mae data gweinyddol ar gael ar gyfer rhai mathau o sefydliadau cymunedol ac mae'n bosibl y gallant gefnogi rhai amcangyfrifon am sefydliadau cymunedol.

## Seiliau poblogaeth ar gyfer allbynnau

Gallai'r SYG gynhyrchu allbynnau yn erbyn dulliau grwpio gwahanol a elwir yn seiliau poblogaeth. Ar hyn o bryd, rydym yn eu cynhyrchu ar gyfer:

- y boblogaeth breswyl arferol, at y diben hwn caiff myfyrwyr eu cyfrif yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor
- y boblogaeth yn ystod y dydd, sef y boblogaeth oedran gweithio fel y mae pan fydd pobl yn y gwaith; gan nodi bod newidiadau mewn patrymau symudedd (er enghraifft, gweithio hybrid) yn effeithio ar hyn
- y boblogaeth y tu allan i'r tymor, sef y boblogaeth breswyl arferol fel y mae pan fydd myfyrwyr yn eu cyfeiriad y tu allan i'r tymor os oes ganddynt un

Mae diddordeb gennym mewn gwybod a yw'r seiliau hyn yn diwallu anghenion, ac a ydym yn casglu neu'n cyhoeddi gwybodaeth ddigonol am ble arall y gallai pobl rydym yn eu cyfrif fod ar adegau gwahanol o'r dydd neu'r flwyddyn. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys y boblogaeth sy'n bresennol (sy'n cynnwys pawb mewn ardal benodol ar adeg benodol, gan gynnwys ymwelwyr) neu boblogaethau ar adegau gwahanol o'r flwyddyn.







# Y camau nesaf a sut i gymryd rhan

Diolch am roi o’ch amser i ddarllen drwy’r ymgynghoriad hwn.

Mae’r SYG wedi nodi ei barn gychwynnol am gasglu gwybodaeth am bynciau yng Nghyfrifiad 2031 ac mae’n gwahodd ymatebion gan ddefnyddwyr.

Wrth ddarparu atebion ar gyfer grwpiau pwnc sy’n cynnwys sawl pwnc, rydym yn annog defnyddwyr i nodi’n glir ar ba bynciau penodol yr hoffent ddarparu adborth.

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn dadansoddi’r ymatebion yn unol â’r meini prawf a ddisgrifir yn yr adran Meini Prawf Gwerthuso, er mwyn llywio’r broses o ddewis pynciau ar gyfer Cyfrifiad 2031. Bydd eich ymatebion i’r ymgynghoriad hwn yn helpu i lywio’r gwerthusiad hwn.

Caiff gwaith ymchwil, ymgysylltu ac ymgynghori pellach ei wneud dros y blynyddoedd nesaf i gefnogi’r broses o ddatblygu cwestiynau a chynllun yr holiadur ar gyfer y cyfrifiad, ac i lywio’r gwaith o gynhyrchu allbynnau’r cyfrifiad.

Byddwn yn darparu diweddariad o fewn 12 wythnos i ddyddiad cau’r ymgynghoriad. Byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiad penodol ar yr ymatebion i’r ymgynghoriad hwn.

**Fe'ch gwahoddir i ymateb i holiadur yr ymgynghoriad cyn y dyddiad cau, sef 4 Chwefror 2026.**

Rydym yn eich annog yn gryf i gwblhau holiadur yr ymgynghoriad ar lein ar wefan Citizen Space[37]. Gallwch hefyd lawrlwytho'r holiadur o wefan Citizen Space ac ymateb drwy e-bost neu drwy'r post.

Mae copïau ffisegol o'r ddogfen ymgynghori hon a'r holiadur ar gael ar gais. Mae copïau print mawr hefyd ar gael.

Ceir canllawiau ar gyfer sefydliadau sydd ag ymatebion lluosog yn Atodiad C.

Gellir anfon ymatebion ac ymholiadau drwy e-bost i Topic.Consultation@ons.gov.uk, neu drwy'r post i:

**ONS Consultations Team**
Post Room
Office for National Statistics
Segensworth Road
Fareham
PO15 5RR

Gallwch chi hefyd ffonio Gwasanaethau Cwsmeriaid y SYG ar gyfer y cyfrifiad ar 01329 444 972.

**Edrychwn ymlaen at glywed gennych.**

## Cyfrinachedd a diogelu data

Mae angen eich enw a'ch cyfeiriad e-bost ar y Swyddfa Ystadegau Gwladol (y SYG) er mwyn derbyn eich ymateb. Efallai y byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â'ch ymateb i'r ymgynghoriad, gyda'ch caniatâd. Rydym yn ceisio bod mor agored â phosibl o ran ein proses gwneud penderfyniadau. Caiff yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad eu cyhoeddi. Caiff enwau sefydliadau sydd wedi ymateb eu cynnwys ynghyd â'u hymateb, a phan fydd unigolion yn rhoi caniatâd i'r SYG gyhoeddi eu henwau ar gyfer ymateb unigol, caiff yr enwau hyn eu cynnwys hefyd. Ni fyddwn yn cyhoeddi manylion cyswllt personol, fel cyfeiriadau e-bost.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch ein Polisi Preifatrwydd[38] (Saesneg yn unig). Mae'r ymgynghoriad hwn wedi cael ei gynnal yn unol ag egwyddorion ymgynghori'r llywodraeth[39] (Saesneg yn unig). Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y mae'r ymgynghoriad hwn wedi cael ei gynnal, e-bostiwch: Topic.Consultation@ons.gov.uk.

ATODIAD A:

# Cwestiynau'r ymgynghoriad: holiadur enghreifftiol

Mae'r atodiad hwn yn rhoi enghraifft o holiadur yr ymgynghoriad. Peidiwch â chwblhau'r enghraifft hon.

Rydym yn eich annog yn gryf i gwblhau holiadur yr ymgynghoriad ar lein ar wefan Citizen Space[40]. Gallwch hefyd lawrlwytho'r holiadur o wefan Citizen Space ac ymateb drwy e-bost neu drwy'r post.

Mae copïau ffisegol o'r holiadur ar gael ar gais. Mae copïau print mawr hefyd ar gael.

Gellir anfon ymatebion ac ymholiadau drwy e-bost i Topic.Consultation@ons.gov.uk, neu drwy'r post i:

**ONS Consultations Team**
Post Room
Office for National Statistics
Segensworth Road
Fareham
PO15 5RR

Gallwch chi hefyd ffonio Gwasanaethau Cwsmeriaid y SYG ar gyfer y cyfrifiad ar 01329 444 972.

## Amdanoch Chi

### 1. Beth yw eich enw?

Dylech gynnwys eich enw cyntaf a'ch cyfenw. (Gofynnol)

**⚠ Enghraifft o holiadur yr ymgynghoriad yw hon**

### 2. Beth yw eich cyfeiriad e-bost?

Caiff hwn ei ddefnyddio i gadarnhau bod eich ymateb wedi ei dderbyn. (Gofynnol)

.......................................................................................................................

### 3. A allwn ni gysylltu â chi yn y dyfodol i drafod eich gofynion o ran ystadegau am y boblogaeth?

Gall hyn fod i egluro eich ymateb neu ehangu arno, neu i'ch gwahodd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu pellach ynghylch eich gofynion mewn perthynas ag ystadegau am y boblogaeth a mudo.

☐ Gallwch

☐ Na allwch

### 4. Ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn?

Ar gyfer ymatebion sefydliadol, un ymateb cydgysylltiedig rydym yn ei ffafrio. Mae'n bosibl na fydd yn briodol nac yn bosibl gwneud hynny bob amser ac, yn yr achos hwn, dylech ddewis eich bod yn ymateb ar ran sefydliad ond dylech ond ddweud wrthym am ofynion rydych yn gwybod amdanynt.

☐ Unigolyn

**Enghraifft o holiadur yr ymgynghoriad yw hon**

- [ ] Ar ran sefydliad

**Nodwch enw eich sefydliad**

........................................................................................................................

Os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad, sicrhewch fod eich ymatebion drwy'r ffurflen yn adlewyrchu anghenion a safbwyntiau eich sefydliad cyfan, yn hytrach na barn bersonol.

## 5. Ym mha sector ydych chi'n gweithio?

Bydd hyn yn helpu'r SYG i fonitro'r ystod o ddefnyddwyr y mae'r ymgynghoriad hwn wedi'u cyrraedd.
Ticiwch bob un sy'n berthnasol

- [ ] Adran o lywodraeth y Deyrnas Unedig
- [ ] Llywodraeth ddatganoledig
- [ ] Corff cyhoeddus anadrannol neu un o asiantaethau'r llywodraeth
- [ ] Llywodraeth leol neu ranbarthol
- [ ] Gwasanaeth cyhoeddus (er enghraifft ysgol neu heddlu)
- [ ] Academia neu ymchwil

**Enghraifft o holiadur yr ymgynghoriad yw hon**

- ☐ Bwrdd y GIG neu sefydliad iechyd
- ☐ Tai
- ☐ Y sector elusennol neu gymunedol
- ☐ Y sector masnachol neu breifat
- ☐ Newyddiaduraeth neu'r cyfryngau
- ☐ Achyddol neu hanes teuluoedd
- ☐ Aelod unigol o'r cyhoedd
- ☐ Arall, nodwch:

..........................................................................................................................................

**Rydym yn ceisio bod mor agored â phosibl o ran ein proses gwneud penderfyniadau. Caiff yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad eu cyhoeddi.**

Caiff enwau'r sefydliadau sydd wedi ymateb eu cynnwys gyda'u hymateb. Os ydych chi'n ymateb fel unigolyn, byddwn yn cyhoeddi eich enw gyda'ch ymateb, os byddwch yn cytuno. Ni fyddwn yn cyhoeddi eich cyfeiriad e-bost.

**Enghraifft o holiadur yr ymgynghoriad yw hon**

**6. Os ydych chi'n ymateb fel unigolyn, ydych chi'n cytuno i'ch enw gael ei gyhoeddi?**

- ☐ Ydw, rwy'n caniatáu i chi gyhoeddi fy enw gyda fy ymateb
- ☐ Nac ydw, tynnwch fy enw cyn cyhoeddi fy ymateb

**Dylech fod yn ymwybodol y gallai unrhyw wybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar bynciau hwn fod ar gael i'r cyhoedd os gwneir cais amdani o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.**

## Gwybodaeth am bynciau'r cyfrifiad

Bydd yr adran hon yn gofyn i chi sut rydych yn disgwyl defnyddio data'r cyfrifiad. Yn unol â'r meini prawf gwerthuso a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, bydd cwestiynau'n cael eu gofyn am ddiben, daearyddiaeth, poblogaethau bach, cymharedd a dadansoddiad amlamrywedd. Bydd eich atebion yn helpu'r SYG i werthuso anghenion defnyddwyr ar gyfer pynciau a gwneud argymhellion ar gyfer eu cynnwys (neu beidio â'u cynnwys) yn holiadur Cyfrifiad 2031.

**⚠ Enghraifft o holiadur yr ymgynghoriad yw hon**

ⓘ Caiff Cwestiynau 7 i 18 eu hailadrodd ar gyfer pob grŵp pwnc a ddisgrifir yn rhan 1 o'r ddogfen ymgynghori hon. Caiff amrywiadau bach i'r ffordd y caiff y cwestiynau eu gofyn ar gyfer grwpiau pwnc penodol eu nodi lle y bo'n berthnasol.

## Defnydd o ddata a'u diben

### 7. Ar ba lefelau daearyddol ydych chi'n disgwyl defnyddio data Cyfrifiad 2031 ar y grŵp pwnc hwn?

Dewiswch bob un sy'n berthnasol

#### Diffiniadau daearyddol

Fel arfer, mae Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol yn cynnwys pedair neu bum Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is, sy'n cynnwys rhwng 2,000 a 6,000 o gartrefi neu rhwng 5,000 a 15,000 o bobl.

Fel arfer, mae Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn cynnwys pedair neu bum Ardal Gynnyrch, sy'n cynnwys rhwng 400 a 1,200 o gartrefi neu rhwng 1,000 a 3,000 o bobl.

**⚠ Enghraifft o holiadur yr ymgynghoriad yw hon**

Fel arfer mae Ardal Gynnyrch yn cynnwys rhwng 40 a 250 o gartrefi neu rhwng 100 a 625 o bobl.

- ☐ Cenedlaethol
- ☐ Rhanbarthol
- ☐ Awdurdod lleol
- ☐ Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol
- ☐ Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is
- ☐ Ardal Gynnyrch
- ☐ Arall, nodwch

.................................................................................................................................

**8. Beth yw eich gofynion o ran data Cyfrifiad 2031 ar gyfer y grŵp pwnc hwn? Dylech gynnwys enghreifftiau o pam y mae eu hangen arnoch.** Cyfeiriwch at y data ar bynciau rydych chi'n eu defnyddio yn eich disgrifiadau.

.................................................................................................................................

.................................................................................................................................

.................................................................................................................................

.................................................................................................................................

**Enghraifft o holiadur yr ymgynghoriad yw hon**

**Dylech gynnwys enghreifftiau manwl yn eich atebion i'r cwestiynau canlynol, gan ganolbwyntio ar ddisgrifio'r defnyddiau pwysicaf i chi neu i'ch sefydliad.**

Ar gyfer hunaniaeth rhywedd, mae cwestiynau 9 i 11 yn gofyn am sut y byddech chi'n disgwyl defnyddio data'r cyfrifiad, yn hytrach na'ch defnydd presennol.

## 9. At ba ddiben ydych chi'n defnyddio data'r cyfrifiad ar y grŵp pwnc hwn?

Cyfeiriwch at y data ar bynciau rydych chi'n eu defnyddio yn eich disgrifiadau.

Rhowch enghreifftiau penodol o beth rydych chi'n ei wneud, pam rydych chi'n ei wneud a'r manteision, os o gwbl.

Gall enghreifftiau manwl gynnwys y canlynol:

- sut mae'r data'n cael eu defnyddio i ddatblygu neu fonitro polisïau
- sut mae'r data'n cael eu defnyddio i fodloni gofynion statudol
- sut mae'r data'n cael eu defnyddio ar gyfer ymchwil

- sut mae'r data'n cael eu defnyddio i ddyrannu cyllid

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

**10. Sut, os o gwbl, ydych chi'n defnyddio data'r cyfrifiad ar y grŵp pwnc hwn ar gyfer ardaloedd daearyddol bach?**

Cyfeiriwch at y data ar bynciau rydych chi'n eu defnyddio yn eich disgrifiadau.

Ystyr ardaloedd daearyddol bach yw lefelau islaw lefel awdurdod lleol.

Rhowch enghreifftiau penodol o beth rydych chi'n ei wneud, pam rydych chi'n ei wneud a'r manteision, os o gwbl.

Gall enghreifftiau manwl gynnwys y canlynol:

- nodi'r ardaloedd hynny (islaw lefel awdurdod lleol) lle mae angen gwasanaethau, ymyrraeth a gwaith cynllunio penodol
- monitro newid demograffig
- dyrannu adnoddau

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

## 11. Sut, os o gwbl, ydych chi'n defnyddio data'r cyfrifiad ar y grŵp pwnc hwn er mwyn deall mwy am grwpiau bach o'r boblogaeth?

Cyfeiriwch at y data ar bynciau rydych chi'n eu defnyddio yn eich disgrifiadau.

Mae grwpiau bach o'r boblogaeth yn cynnwys pobl a gaiff eu nodi drwy briodoleddau diwylliannol a rennir, fel grŵp ethnig, crefydd, hunaniaeth genedlaethol, prif iaith, gwlad enedigol neu nodweddion gwarchodedig.

Rhowch enghreifftiau penodol o beth rydych chi'n ei wneud, pam rydych chi'n ei wneud a'r manteision, os o gwbl.

Gall enghreifftiau manwl gynnwys y canlynol:

- nodi pa grwpiau bach o'r boblogaeth allai fod angen cyllid ychwanegol gan wasanaethau
- cymharu grwpiau bach gwahanol o'r boblogaeth at ddibenion ymchwil

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

**Enghraifft o holiadur yr ymgynghoriad yw hon**

**Ni chaiff Cwestiwn 12 ei ofyn ar gyfer y pynciau canlynol: cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd neu gyn-filwyr.**

### 12. Sut, os o gwbl, ydych chi'n cymharu data'r cyfrifiad ar y grŵp pwnc hwn â chyfrifiadau cynharach?

Cyfeiriwch at y data ar byncIau rydych chi'n eu defnyddio yn eich disgrifiadau.

Rhowch enghreifftiau penodol o beth rydych chi'n ei wneud, pam rydych chi'n ei wneud a'r manteision, os o gwbl.

Gall enghreifftiau manwl gynnwys y canlynol:

- gwerthusiadau dros amser er mwyn gwneud penderfyniadau am gyllid
- amcanestyniadau rydych chi'n eu gwneud, a sut y cânt eu defnyddio
- gwerthusiadau dros amser er mwyn gwneud argymhellion polisi

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

**Ar gyfer hunaniaeth rhywedd, mae cwestiynau 13 i 14 yn gofyn am sut y byddech chi'n disgwyl defnyddio data'r cyfrifiad, yn hytrach na'ch defnydd presennol.**

**13. Sut, os o gwbl, ydych chi'n defnyddio data'r cyfrifiad ar y grŵp pwnc hwn sydd wedi'u cyfuno â newidynnau eraill y cyfrifiad (a elwir fel arall yn ddadansoddiad amlamrywedd)?**

Cyfeiriwch at y data ar bynciau rydych chi'n eu defnyddio yn eich disgrifiadau.

Rhowch enghreifftiau penodol o beth rydych chi'n ei wneud, pam rydych chi'n ei wneud a'r manteision, os o gwbl.

Gall enghreifftiau manwl gynnwys eu defnyddio ar gyfer y canlynol:

- cymharu newidynnau gwahanol y cyfrifiad â'i gilydd
- archwilio'r cyfrifon a gynhyrchir gan y SYG yn fanylach
- ystyried y cydberthnasau rhwng newidynnau data'r cyfrifiad

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

### 14. Sut, os o gwbl, ydych chi'n cymharu data'r cyfrifiad ar y grŵp pwnc hwn ag ardaloedd daearyddol y tu allan i Gymru a Lloegr?

Cyfeiriwch at y data ar byncia u rydych chi'n eu defnyddio yn eich disgrifiadau.

Rhowch enghreifftiau penodol o beth rydych chi'n ei wneud, pam rydych chi'n ei wneud a'r manteision, os o gwbl.

Gall enghreifftiau manwl gynnwys y canlynol:

- cymariaethau ledled y Deyrnas Unedig at ddibenion cyllid
- cymariaethau rhwng awdurdodau lleol gwahanol o fewn rhanbarthau eraill ledled gwledydd y Deyrnas Unedig i ddatblygu polisïau
- cymariaethau â gwledydd Ewropeaidd at ddibenion ymchwil
- cymharu Cymru a Lloegr â data yr Alban a Gogledd Iwerddon er mwyn cynllunio a chydlynu ymatebion brys

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........

..........

**Ni chaiff Cwestiwn 15 ei ofyn ar gyfer hunaniaeth rhywedd**

**15. Sut, os o gwbl, mae'r defnyddiau presennol hyn yn wahanol i'ch anghenion (yn y dyfodol) am ddata Cyfrifiad 2031 ar y grŵp pwnc hwn? Rhowch enghreifftiau manwl o'ch anghenion yn y dyfodol, gan gynnwys cymariaethau y gallech eu gwneud â data Cyfrifiad 2021.** Cyfeiriwch at y data ar bynciau rydych chi'n eu defnyddio yn eich disgrifiadau.

..........

..........

..........

..........

## Ffynonellau data amgen

**16. Sut, os o gwbl, mae ffynonellau data amgen (nad ydynt yn ymwneud â'r cyfrifiad) ar y grŵp pwnc hwn yn bodloni eich gofynion? Dylech gynnwys enghreifftiau manwl yn eich ateb.**

## ⚠ Enghraifft o holiadur yr ymgynghoriad yw hon

Mae ffynonellau data amgen yn cynnwys ffynonellau gweinyddol, data wedi'u crafu o'r we, data o gyfryngau cymdeithasol, arolygon eraill a data masnachol.

Cyfeiriwch at y pynciau rydych chi'n eu defnyddio yn eich disgrifiadau.

Mae'n ddefnyddiol cynnwys gwybodaeth am y pwyntiau canlynol, lle byddant yn gymwys:

- pa ffynonellau data amgen rydych chi'n eu defnyddio
- at ba ddiben rydych chi'n defnyddio'r data hyn
- sut, os o gwbl, rydych chi'n cyfuno ffynonellau data amgen â data'r cyfrifiad
- i ba raddau y mae'r rhain yn bodloni eich gofynion data
- pa gostau ychwanegol, os o gwbl, sy'n cael eu codi wrth gaffael ffynonellau data gweinyddol

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

**⚠ Enghraifft o holiadur yr ymgynghoriad yw hon**

### 17. Beth fyddai'r canlyniadau i chi, os o gwbl, pe na bai data'n cael eu casglu ar gyfer y grŵp pwnc hwn yng Nghyfrifiad 2031?

Mae'n ddefnyddiol cynnwys gwybodaeth am y pwyntiau canlynol, lle byddant yn gymwys:

- p'un a allai ffynonellau data amgen presennol gael eu defnyddio yn lle data'r cyfrifiad (nid oes angen i chi ailadrodd unrhyw fanylion ar ddata amgen rydych chi eisoes wedi'u darparu)
- p'un a fyddai angen ymgymryd â phroses casglu data ychwanegol neu gomisiynu proses o'r fath
- canlyniadau o ran amser, cost ariannol neu ansawdd
- gwaith na allai gael ei wneud mwyach heb ddata'r cyfrifiad, os o gwbl

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

# Gofynion ychwanegol

**18. Beth arall, os o gwbl, hoffech chi ei ychwanegu am eich gofynion o ran data Cyfrifiad 2031 ar gyfer y grŵp pwnc hwn?**
Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, blychau ticio ymateb ychwanegol, neu gyfleoedd i gysylltu data'r cyfrifiad â ffynonellau data eraill.

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

# Gofynion ar gyfer data ar bynciau na chawsant eu casglu o'r blaen

Dim ond os bydd angen arwyddocaol am y data y gellir cyfiawnhau casglu gwybodaeth o'r cyfrifiad.

Bydd y cwestiynau canlynol yn casglu gwybodaeth fanwl am eich gofynion o ran data newydd o Gyfrifiad 2031 ar y 'math o gyflwr iechyd, amhariad neu anabledd' ac 'incwm'.

**Enghraifft o holiadur yr ymgynghoriad yw hon**

**Caiff Cwestiynau 19 i 26 eu gofyn am bob un o'r pynciau newydd posibl a drafodir yn rhan dau o'r ddogfen ymgynghori hon.**

## Ffynonellau data amgen

**19. Sut, os o gwbl, mae ffynonellau data amgen (nad ydynt yn ymwneud â'r cyfrifiad) ar y pwnc hwn yn bodloni eich gofynion? Dylech gynnwys enghreifftiau manwl yn eich ateb.**

Mae ffynonellau data amgen yn cynnwys ffynonellau gweinyddol, data wedi'u crafu o'r we, data o gyfryngau cymdeithasol, arolygon eraill a data masnachol.

Mae'n ddefnyddiol cynnwys gwybodaeth am y pwyntiau canlynol, lle byddant yn gymwys:

- pa ffynonellau data amgen rydych chi'n eu defnyddio, os o gwbl
- at ba ddiben rydych chi'n defnyddio'r data hyn
- i ba raddau y mae'r rhain yn bodloni eich gofynion data
- pa gostau ychwanegol, os o gwbl, sy'n cael eu codi wrth gaffael ffynonellau data gweinyddol

.............................................................................................................................

.............................................................................................................................

.............................................................................................................................

## Defnydd o ddata a'u diben

**20. Ar ba lefelau daearyddol ydych chi'n disgwyl defnyddio data Cyfrifiad 2031 ar y pwnc hwn?**
Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

### Diffiniadau daearyddol

Fel arfer, mae Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol yn cynnwys pedair neu bum Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is, sy'n cynnwys rhwng 2,000 a 6,000 o gartrefi neu rhwng 5,000 a 15,000 o bobl.

Fel arfer, mae Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn cynnwys pedair neu bum Ardal Gynnyrch, sy'n cynnwys rhwng 400 a 1,200 o gartrefi neu rhwng 1,000 a 3,000 o bobl.

Fel arfer mae Ardal Gynnyrch yn cynnwys rhwng 40 a 250 o gartrefi neu rhwng 100 a 625 o bobl.

- ☐ Cenedlaethol
- ☐ Rhanbarthol
- ☐ Awdurdod lleol
- ☐ Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol

**⚠ Enghraifft o holiadur yr ymgynghoriad yw hon**

☐ Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is

☐ Ardal Gynnyrch

☐ Arall, nodwch

.................................................................................................................................

**21. Beth yw eich gofynion o ran data Cyfrifiad 2031 ar gyfer y pwnc hwn? Dylech gynnwys enghreifftiau o pam y mae eu hangen arnoch.**

.................................................................................................................................

.................................................................................................................................

.................................................................................................................................

.................................................................................................................................

**Dylech gynnwys enghreifftiau manwl yn eich atebion i'r cwestiynau canlynol, gan ganolbwyntio ar ddisgrifio'r defnyddiau pwysicaf i chi neu i'ch sefydliad.**

**22. At ba ddiben y byddech chi'n defnyddio data Cyfrifiad 2031 ar y pwnc hwn?**

Gall enghreifftiau manwl gynnwys y canlynol:

- sut y byddech chi'n disgwyl defnyddio'r data hyn i ddatblygu neu fonitro polisïau

- sut y byddech chi'n disgwyl defnyddio'r data hyn i fodloni gofynion statudol
- sut y byddech chi'n disgwyl defnyddio'r data hyn ar gyfer ymchwil
- sut y byddech chi'n disgwyl defnyddio'r data hyn i ddyrannu cyllid

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................

### 23. Sut, os o gwbl, y byddech chi'n defnyddio data Cyfrifiad 2031 ar y pwnc hwn ar gyfer ardaloedd daearyddol bach?

Ystyr ardaloedd daearyddol bach yw lefelau islaw lefel awdurdod lleol.

Rhowch enghreifftiau penodol o beth y byddech chi'n disgwyl ei wneud, pam a'r manteision, os o gwbl.

Gall enghreifftiau manwl gynnwys y canlynol:

- nodi'r ardaloedd hynny (islaw lefel awdurdod lleol) lle mae angen gwasanaethau, ymyrraeth a gwaith cynllunio penodol
- monitro newid demograffig

**Enghraifft o holiadur yr ymgynghoriad yw hon**

- dyrannu adnoddau

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

### 24. Sut, os o gwbl, y byddech chi'n defnyddio data Cyfrifiad 2031 ar y pwnc hwn er mwyn deall mwy am grwpiau bach o'r boblogaeth?

Mae grwpiau bach o'r boblogaeth yn cynnwys grwpiau o bobl a gaiff eu nodi drwy briodoleddau diwylliannol a rennir, fel grŵp ethnig, crefydd, hunaniaeth genedlaethol, prif iaith, gwlad enedigol neu nodweddion gwarchodedig.

Rhowch enghreifftiau penodol o beth y byddech chi'n disgwyl ei wneud, pam a'r manteision, os o gwbl.

Gall enghreifftiau manwl gynnwys y canlynol:

- nodi pa grwpiau bach o'r boblogaeth allai fod angen cyllid ychwanegol gan wasanaethau
- cymharu grwpiau bach gwahanol o'r boblogaeth at ddibenion ymchwil

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

**Enghraifft o holiadur yr ymgynghoriad yw hon**

**25. Sut, os o gwbl, y byddech chi'n defnyddio data Cyfrifiad 2031 ar y pwnc hwn sydd wedi'u cyfuno â newidynnau eraill y cyfrifiad (a elwir fel arall yn ddadansoddiad amlamrywedd)?**
Rhowch enghreifftiau penodol o beth y byddech chi'n disgwyl ei wneud, pam a'r manteision, os o gwbl.

Gall enghreifftiau manwl gynnwys eu defnyddio ar gyfer y canlynol:

- cymharu newidynnau gwahanol y cyfrifiad â'i gilydd
- archwilio'r cyfrifon a gynhyrchir gan y SYG yn fanylach
- ystyried y cydberthnasau rhwng newidynnau data'r cyfrifiad

......................................................................................................................................................

......................................................................................................................................................

......................................................................................................................................................

......................................................................................................................................................

**26. Sut, os o gwbl, y byddech chi'n cymharu data'r cyfrifiad ar y pwnc hwn ag ardaloedd daearyddol y tu allan i Gymru a Lloegr?**
Rhowch enghreifftiau penodol o beth y byddech chi'n disgwyl ei wneud, pam a'r manteision, os o gwbl.

**⚠ Enghraifft o holiadur yr ymgynghoriad yw hon**

Gall enghreifftiau manwl gynnwys y canlynol:

- cymariaethau ledled y Deyrnas Unedig at ddibenion cyllid
- cymariaethau rhwng awdurdodau lleol gwahanol o fewn rhanbarthau eraill ledled gwledydd y Deyrnas Unedig i ddatblygu polisïau
- cymariaethau â gwledydd Ewropeaidd at ddibenion ymchwil
- cymharu Cymru a Lloegr â data yr Alban a Gogledd Iwerddon er mwyn cynllunio a chydlynu ymatebion brys

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

## Pynciau newydd ychwanegol

Nawr mae gennych y cyfle i ddweud wrthym am unrhyw bynciau newydd eraill y mae gennych ofynion ar eu cyfer. Cwblhewch gopi o'r adran ganlynol ar gyfer pob pwnc newydd rydych yn dymuno ei gynnig.

**27. Pa bynciau newydd ychwanegol eraill, os o gwbl, y byddech chi'n eu cynnig ar gyfer Cyfrifiad 2031?**

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

### 28. Sut y byddech chi'n disgwyl defnyddio'r data hyn o'r cyfrifiad? Dylech gynnwys enghreifftiau manwl yn eich ateb.

Mae'n ddefnyddiol cynnwys gwybodaeth am y canlynol, lle byddant yn gymwys:

- sut y byddech chi'n defnyddio'r data hyn i ddeall grwpiau bach o'r boblogaeth, fel y rhai a gaiff eu nodi gan hunaniaethau diwylliannol a rennir a all fod yn anodd eu cynrychioli'n gywir drwy arolygon
- sut y byddech chi'n defnyddio'r data hyn ar gyfer ardaloedd daearyddol sy'n llai nag awdurdod lleol
- sut y byddech chi'n cyfuno'r data hyn o'r cyfrifiad â newidynnau eraill y cyfrifiad er mwyn ystyried cydberthnasau rhwng y data (dadansoddiad amlamrywedd)

- sut y byddech chi'n cymharu'r data hyn â data y tu hwnt i Gymru a Lloegr, fel cymharu awdurdodau lleol gwahanol o fewn gwledydd y Deyrnas Unedig, neu gymharu ledled y Deyrnas Unedig neu â gwledydd Ewropeaidd

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

## Ardaloedd daearyddol

**29. Mae'r SYG yn cynhyrchu nifer o ardaloedd daearyddol ystadegol a gweinyddol craidd. Pa ardaloedd daearyddol ychwanegol, os o gwbl, sydd eu hangen arnoch ar gyfer Cyfrifiad 2031? Dylech gynnwys yn eich ateb pa ardaloedd daearyddol sydd eu hangen arnoch, at ba ddiben y mae eu hangen a manteision eu cael, os o gwbl.**

**Ardaloedd daearyddol ystadegol a gweinyddol craidd**

- Cenedlaethol
- Rhanbarthol
- Awdurdod lleol

**Enghraifft o holiadur yr ymgynghoriad yw hon**

- Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (sydd fel arfer yn cynnwys pedair neu bum Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is, sy'n cynnwys rhwng 2,000 a 6,000 o gartrefi neu rhwng 5,000 a 15,000 o bobl).
- Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (sydd fel arfer yn cynnwys pedair neu bum Ardal Gynnyrch, sy'n cynnwys rhwng 400 a 1,200 o gartrefi neu rhwng 1,000 a 3,000 o bobl)
- Ardal Gynnyrch (sydd fel arfer yn cynnwys rhwng 40 a 250 o gartrefi neu rhwng 100 a 625 o bobl)

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................

## Diffiniadau'r cyfrifiad a seiliau poblogaeth

**30. Mae diffiniadau'r cyfrifiad, fel preswylydd arferol ac annedd, yn disgrifio sut y caiff unigolion a llety eu cyfrif a'u grwpio. Pa ddiffiniadau a dulliau grwpio ychwanegol sydd eu hangen arnoch ar gyfer Cyfrifiad 2031, os o gwbl, na chawsant eu defnyddio ar gyfer Cyfrifiad 2021? Dylech gynnwys yn eich ateb unrhyw newidiadau gofynnol i ddiffiniadau presennol neu grwpiau newydd, at ba ddiben y mae eu hangen a manteision eu cael, os o gwbl.**

### Dulliau grwpio Cyfrifiad 2021

At ddiben cyfeirio, mae dulliau grwpio Cyfrifiad 2021 wedi'u darparu isod.

- Preswylydd arferol: pobl sydd wedi aros, neu sy'n bwriadu aros, mewn gwlad am 12 mis neu fwy.
- Teulu: cwpwl sy'n briod, mewn partneriaeth sifil neu sy'n cyd-fyw â phlant neu lysblant neu hebddynt, neu riant unigol ag o leiaf un plentyn, sy'n byw yn yr un cyfeiriad.
- Cartref: un person sy'n byw ar ei ben ei hun, neu grŵp o bobl sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac sy'n rhannu cyfleusterau coginio ac ystafell fyw neu le bwyta.

- Annedd: uned hunangynhwysol o lety, er enghraifft tai neu fflatiau, y gall rhywun fod yn byw ynddi neu a all fod yn wag.
- Ymwelydd: person sy'n byw yn y Deyrnas Unedig fel arfer, neu breswylydd byrdymor o'r Deyrnas Unedig at ddibenion y cyfrifiad (ceir diffiniad isod), sy'n aros dros nos ar ddiwrnod y cyfrifiad mewn cyfeiriad lle nad yw'n byw fel arfer.
- Preswylydd byrdymor: unrhyw un a aned y tu allan i'r Deyrnas Unedig sydd wedi aros, neu'n bwriadu aros, yn y Deyrnas Unedig am gyfnod o dri mis neu fwy, ond llai na 12 mis.

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

**31. Mae'r SYG yn cynhyrchu allbynnau yn erbyn y boblogaeth breswyl arferol, y boblogaeth yn ystod y dydd a'r boblogaeth y tu allan i'r tymor ar hyn o bryd. Pa seiliau poblogaeth ychwanegol, os o gwbl, sydd eu hangen arnoch chi o Gyfrifiad 2031?**

**⚠ Enghraifft o holiadur yr ymgynghoriad yw hon**

Dylech gynnwys yn eich ateb pa seiliau poblogaeth sydd eu hangen arnoch, at ba ddiben y mae eu hangen a manteision eu cael, os o gwbl.

### Canllawiau

Seiliau poblogaeth yw'r dulliau grwpio a ddefnyddir ar gyfer allbynnau ystadegol sy'n disgrifio ble mae'r bobl rydym ni'n eu cyfrif ar adeg benodol o'r dydd neu'r flwyddyn.

- Poblogaeth breswyl arferol: y boblogaeth o unigolion sydd wedi aros, neu sy'n bwriadu aros, mewn gwlad am 12 mis neu fwy. Caiff myfyrwyr eu cyfrif yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor.
- Poblogaeth yn ystod y dydd: y boblogaeth oedran gweithio fel y mae pan fydd pobl yn y gwaith; gan nodi bod newidiadau mewn patrymau symudedd (er enghraifft, gweithio hybrid) yn effeithio ar hyn.
- Poblogaeth y tu allan i'r tymor: y boblogaeth breswyl arferol fel y mae pan fydd myfyrwyr yn eu cyfeiriad y tu allan i'r tymor os oes ganddynt un.

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

## Sefydliadau cymunedol

**32. Pa ofynion sydd gennych chi ar gyfer data Cyfrifiad 2031 sy'n ymwneud â sefydliadau cymunedol a'u poblogaethau? Amlinellwch eich gofynion ar gyfer pob math o lety a phoblogaethau'r rhain.**

Lleoliad yw sefydliad cymunedol lle caiff y llety preswyl ei oruchwylio drwy'r amser neu am ran o'r amser

Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- neuaddau preswyl prifysgolion ac ysgolion preswyl
- cartrefi gofal, ysbytai, hosbisau ac unedau mamolaeth
- gwestai, tai llety, hostelau a llety gwely a brecwast, sy'n cynnwys llety preswyl i saith gwestai neu fwy
- carchardai a chyfleusterau diogel eraill
- Llety Byw Unigol mewn canolfannau milwrol
- llety i staff
- sefydliadau crefyddol

Nid yw'n cynnwys llety gwarchod, fflatiau a wasanaethir, llety nyrsys, na thai a gaiff eu rhentu i fyfyrwyr gan landlordiaid preifat. Cartrefi yw'r rhain.

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

### 33. Ar ba lefel ddaearyddol mae angen data Cyfrifiad 2031 am sefydliadau cymunedol arnoch chi?

**Diffiniadau daearyddol**

Fel arfer, mae Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol yn cynnwys pedair neu bum Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is, sy'n cynnwys rhwng 2,000 a 6,000 o gartrefi neu rhwng 5,000 a 15,000 o bobl.

Fel arfer, mae Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn cynnwys pedair neu bum Ardal Gynnyrch, sy'n cynnwys rhwng 400 a 1,200 o gartrefi neu rhwng 1,000 a 3,000 o bobl.

Fel arfer mae Ardal Gynnyrch yn cynnwys rhwng 40 a 250 o gartrefi neu rhwng 100 a 625 o bobl.

- ☐ Cenedlaethol
- ☐ Rhanbarthol
- ☐ Awdurdod lleol
- ☐ Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol
- ☐ Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is

☐ Ardal Gynnyrch

☐ Arall, nodwch

## Cysoni

**34. Ym mha feysydd pwnc neu eitemau data, os o gwbl, y byddai mwy o ddulliau cysoni yn eich helpu i ddod â data ynghyd o ffynonellau gwahanol yn fwy effeithiol? Dylech gynnwys enghreifftiau manwl lle mae diffyg safonau wedi'u cysoni wedi'i gwneud yn anodd cyfuno neu gymharu data.**

Adnoddau a gaiff eu datblygu gan Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth yw canllawiau a safonau wedi'u cysoni er mwyn gwella'r gallu i gymharu ystadegau a'u cydlyniaeth. Mae safonau wedi'u cysoni yn cynnwys diffiniadau, cwestiynau arolwg, cyflwyniadau a awgrymir a gwybodaeth i ddefnyddwyr data. Gall cynhyrchwyr ystadegau ddefnyddio'r safonau wedi'u cysoni hyn i gyd-fynd â rhai eraill a fydd yn gwneud eu hystadegau yn fwy defnyddiol. Mae hyn yn golygu ei bod yn haws dod â data tebyg o ffynonellau gwahanol ynghyd i greu darlun data ehangach.

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................

# Unrhyw beth arall

## 35. Beth arall, os o gwbl, hoffech chi ei ychwanegu am eich gofynion o ran data Cyfrifiad 2031?

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................

## ATODIAD B:

# Polisi cymedroli

Er mwyn sicrhau tryloywder, byddwn ni – y Swyddfa Ystadegau Gwladol (y SYG) – yn cyhoeddi pob ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar bynciau Cyfrifiad 2031 ar ôl i'r gwerthusiad gael ei gwblhau.

Mae'r SYG yn cadw'r hawl i gymedroli'r broses o gyhoeddi ymatebion er mwyn sicrhau bod ymatebion yn briodol ac nad ydynt yn niweidiol i eraill, yn unol â'r telerau isod.

**Gellir penderfynu peidio â chyhoeddi ymatebion, neu eu golygu, os byddant yn cynnwys unrhyw rai o'r canlynol:**

- bygythiadau neu achosion o annog trais
- defnydd anweddus
- ymatebion sy'n ceisio cyflogaeth neu'n cynnwys hysbysebion ar gyfer cynnyrch neu wasanaeth masnachol
- gwybodaeth sy'n mynd yn groes i'r gyfraith, gan gynnwys enllib, cydoddef neu annog gweithgarwch anghyfreithlon, datgelu gwybodaeth ddirgel, neu achos o dorri hawlfraint neu nod masnach

Rydym yn gwerthfawrogi eich amser a'ch mewnbwn yn fawr, a'n dymuniad yw golygu cyn lleied o ymatebion â phosibl a sicrhau bod ymgynghoriad adeiladol â ffocws iddo yn cael ei gynnal ar yr un pryd. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a gellir newid y dull cymedroli er mwyn mynd i'r afael â materion ychwanegol fel y bo angen. Os oes gennych gŵyn am unrhyw eitem o gynnwys a gynhyrchwyd gan ddefnyddiwr ar y wefan hon, neu'n teimlo bod eich cynnwys eich hun wedi'i olygu mewn camgymeriad, cysylltwch â ni.

ATODIAD C:


# Canllawiau ar gyfer sefydliadau sydd ag ymatebwyr lluosog

Lle y bo'n bosibl, byddai'n well gennym gael un ymateb fesul sefydliad, ond rydym yn gwerthfawrogi na fydd hyn o bosibl yn ymarferol bob amser.


Er mwyn cynhyrchu ymateb sefydliadol, mae'n bosibl y bydd angen i chi gydlynu cynnwys gan eraill yn eich sefydliad a all feddu ar y wybodaeth fanwl am sut y caiff data ar bob pwnc eu defnyddio. Yr unigolion hyn fydd yn y sefyllfa orau i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom fel tystiolaeth.

Mae angen i un person gydlynu'r ymateb ar ran yr arbenigwyr hyn felly.


1. Mae angen i'r cydlynydd ddechrau ymateb ar-lein i'r holiadur drwy glicio ar y ddolen o dudalen drosolwg yr ymgynghoriad.





Unwaith y byddwch wedi darllen y dudalen “Cyflwyniad”, cliciwch ar y botwm “Parhau” ar y gwaelod.





**2.** Cwblhewch yr adrannau “Amdanoch chi”. Dewiswch “Ar ran sefydliad” ar gyfer y cwestiynau cyntaf. Cliciwch ar y botwm “Parhau”. Rhowch enw eich sefydliad. Yna defnyddiwch gyfeiriad e-bost y cydlynydd.





Ymgynghoriad ar bynciau Cyfrifiad 2031
Yn cau 27 Hyd 2025
Mae'r gwasanaeth hwn yn gofyn am cwcis wedi'u galluogi.
Amdanoch chi
Beth yw enw eich sefydliad?
(Gofynnol)
Yn ôl
Yn gyntaf
Cadw a dychwelyd yn nes ymlaen...
Parhau
Citizen Space o Delib
Polisi Hygyrchedd
Polisi Cwcis
Datganiad preifatrwydd
Cymorth / adborth


Ymgynghoriad ar bynciau Cyfrifiad 2031
Yn cau 27 Hyd 2025
Mae'r gwasanaeth hwn yn gofyn am cwcis wedi'u galluogi.
Amdanoch chi
Beth yw eich enw? Dylech gynnwys eich enw cyntaf a'ch cyfenw.
(Gofynnol)
Beth yw eich cyfeiriad e-bost?
Caiff hwn ei ddefnyddio i gadarnhau bod eich ymateb wedi ei dderbyn.
Ym mha sector rydych chi'n gweithio? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.
Bydd hyn yn helpu'r SYG i fonitro'r ystod o ddefnyddwyr y mae'r ymgynghoriad hwn wedi'u cyrraedd.


3. O'r man hwn, gallwch gadw'r holiadur a dychwelyd yn nes ymlaen. Ar waelod yr adran "Amdanoch chi" byddwch yn gweld yr opsiwn "Cadw a dod yn ôl nes ymlaen... ". Cliciwch ar yr opsiwn hwn ac, ar y dudalen newydd, rhowch gyfeiriad e-bost y cydlynydd unwaith eto, yna cliciwch ar y botwm "Cadw ac anfon e-bost".



4. Byddwch yn gweld tudalen â’r teitl “Eich manylion dychwelyd”, â rhif adnabod ac URL unigryw. Gellir anfon yr URL hwn drwy e-bost at bobl eraill yn eich sefydliad ac mae’n gweithio fel ffordd o fewngofnodi i holiadur yr ymgynghoriad. Bydd y cydlynydd yn derbyn e-bost yn cynnwys y wybodaeth hon.
5. Gall sawl person gyfrannu at yr holiadur, ar yr amod nad ydynt yn ychwanegu ymatebion at gwestiynau’r un pwnc.
6. Pan fyddwch yn mewngofnodi i’r holiadur eto, byddwch yn mynd i’r dudalen gyntaf. Dylech weld bod eich ymatebion wedi’u llenwi. Gall ymatebwyr symud yn ôl neu ymlaen drwy’r holiadur.
7. Unwaith y bydd aelodau eraill o’ch sefydliad wedi cwblhau eu hadrannau, dylent glicio ar “cadw a dod yn ôl nes ymlaen” ac yna adael yr holiadur. Ni ddylent ddefnyddio’r botwm “cyflwyno” gan y bydd hynny’n cyflwyno’r ymateb cyfan i’r ymgynghoriad, a fydd yn anghyflawn o bosibl os na fydd eraill wedi cyfrannu eto.
8. Dim ond y cydlynydd ddylai gyflwyno ymateb eich sefydliad i’r ymgynghoriad yn derfynol pan fydd pawb arall wedi cwblhau eu hadrannau.

9. Ar ddiwedd yr arolwg, mae clicio ar “Gorffen” yn mynd â chi i sgrin gadarnhau a fydd yn esbonio beth fydd yn digwydd nesaf. Tasg olaf y cydlynydd yw clicio ar y botwm “Cyflwyno ymateb”.




10. Bydd e-bost yn cael ei anfon at y cydlynydd yn cadarnhau bod ymateb y sefydliad wedi’i gyflwyno. Bydd yn cynnwys yr un rhif cyfeirnod unigryw â’r un y cyfeirir ato ym mhwynt 4 er mwyn i chi ei ddyfynnu os bydd angen i chi gysylltu â ni yn Topic.Consultation@ons.gov.uk.

ATODIAD D:

# Crynodeb o'r farn gychwynnol ar gynnwys Cyfrifiad 2031 yng Nghymru a Lloegr

Mae'r adran hon yn crynhoi barn gychwynnol y SYG am bynciau ar gyfer Cyfrifiad 2031. Mae pedwar categori i'r farn gychwynnol:

- "Casglu drwy'r cyfrifiad" – sy'n golygu ein bod yn disgwyl casglu data ar y pwnc
- "Angen rhagor o wybodaeth" – sy'n golygu bod angen rhagor o wybodaeth arnom er mwyn llywio penderfyniadau
- "Peidio â chasglu drwy'r cyfrifiad (ceisio diwallu anghenion defnyddwyr drwy ddata gweinyddol)" – sy'n golygu ein bod yn cynnig defnyddio data gweinyddol i gynhyrchu ystadegau tebyg i gyfrifiad yn hytrach na chasglu drwy'r cyfrifiad.

Y pedwerydd categori yw "Casglu drwy'r cyfrifiad – hanfodol". Mae hyn yn golygu nad oes angen cyfiawnhau'r penderfyniad i gynnwys pwnc ymhellach gan fod y wybodaeth yn hanfodol i weithrediad y cyfrifiad neu'r system ystadegau poblogaeth ehangach. Fodd bynnag, mae gennym ddiddordeb yn adborth ymatebwyr ar eu hanghenion mewn perthynas â'r pynciau hyn o hyd, yn enwedig lle gall gofynion fod wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf.

## Casglu drwy'r cyfrifiad – hanfodol

- Oedran
- Rhyw
- Cydberthnasau rhwng aelodau o'r cartref a chydberthnasau teuluol
- Math o gartref
- Deiliadaeth a landlord (os ydynt yn rhentu)
- Symudedd rhyngwladol dros dro
- Grŵp ethnig

## Casglu drwy'r cyfrifiad

- Statws priodasol neu bartneriaeth gyfreithiol
- Gwlad enedigol
- Mudo rhyngwladol hirdymor
- Mudo mewnol
- Pasbortau a ddelir
- Hunaniaeth genedlaethol
- Crefydd
- Prif iaith
- Hyfedredd Saesneg
- Sgiliau Cymraeg (yng Nghymru yn unig)
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Anabledd a chyflyrau iechyd hirdymor
- Gofal di-dâl
- Cymwysterau
- Statws myfyriwr a chyfeiriad yn ystod y tymor
- Gweithgarwch economaidd

- Diwydiant
- Galwedigaeth
- Cyfeiriad y gweithle

## Angen rhagor o wybodaeth

- Nifer yr ystafelloedd gwely
- Math o wres canolog
- Nifer y ceir neu'r faniau
- Iechyd cyffredinol
- Hunaniaeth rhywedd
- Prif ddull o deithio i'r gweithle
- Cyn-filwyr lluoedd arfog y Deyrnas Unedig
- Math o gyflwr iechyd, amhariad neu anabledd (pwnc newydd posibl)

## Peidio â chasglu drwy'r cyfrifiad (ceisio diwallu anghenion drwy ddata gweinyddol)

- Nifer yr ystafelloedd
- Incwm (pwnc newydd posibl)

ATODIAD E:

# Ôlnodiadau


1. https://consultations.ons.gov.uk/syg/ystadegauyboblogaethamudo/
2. https://analysisfunction.civilservice.gov.uk/government-statistical-service-and-statistician-group/gss-support/gss-harmonisation-support/harmonised-standards-and-guidance/
3. https://consultations.ons.gov.uk/census/ymgynghoriad-ar-byncia u-cyfrifiad-2031
4. https://uksa.statisticsauthority.gov.uk/publication/concordat-on-statistics/
5. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/populationestimatesforenglandandwales/mid2024#comparing-admin-based-and-mid-year-population-estimates
6. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/internationalmigration/bulletins/longterminternationalmigrationprovisional/yearendingdecember2024
7. https://uksa.statisticsauthority.gov.uk/publication/argymhelliad-gan-awdurdod-ystadegaur-du-ar-ddyfodol-ystadegau-am-y-boblogaeth-a-mudo-yng-nghymru-a-lloegr/

8. https://www.gov.uk/government/publications/2031-census-of-england-and-wales-confirmed/response-from-minister-gould-to-sir-robert-chote-census-2031-welsh-html
9. https://code.statisticsauthority.gov.uk
10. https://uksa.statisticsauthority.gov.uk/publication/argymhelliad-gan-awdurdod-ystadegaur-du-ar-ddyfodol-ystadegau-am-y-boblogaeth-a-mudo-yng-nghymru-a-lloegr/
11. https://analysisfunction.civilservice.gov.uk/government-statistical-service-and-statistician-group/gss-support/gss-harmonisation-support/harmonised-standards-and-guidance/
12. https://analysisfunction.civilservice.gov.uk/policy-store/ethnicity-harmonised-standard/
13. https://consultations.ons.gov.uk/harmonisation/gss-safonau-newydd-ethnigrwydd-cysoni
14. https://consultations.ons.gov.uk/census/ymgynghoriad-ar-bynciau-cyfrifiad-2031
15. https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents
16. https://analysisfunction.civilservice.gov.uk/policy-store/government-statistical-service-gss-harmonisation-team-workplan-2024/

17. https://www.ons.gov.uk/census/census transformationprogramme/questiondevelopment/genderidentity/census2021finalguidanceforthe questionwhatisyoursex
18. https://analysisfunction.civilservice.gov.uk/government-statistical-service-and-statistician-group/gss-support/gss-harmonisation-support/harmonised-standards-and-guidance/
19. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationand community/populationandmigration/population estimates/bulletins/populationestimatesfor englandandwales/mid2024
20. https://analysisfunction.civilservice.gov.uk/policy-store/household-relationships/
21. https://unstats.un.org/unsd/demographic-social/sconcerns/migration/docs/Recommendations%20on%20Statistics%20of%20International%20Migration%20and%20Temporary%20Mobility.pdf
22. https://consultations.ons.gov.uk/harmonisation/gss-safonau-newydd-ethnigrwydd-cysoni
23. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationand community/populationandmigration/international migration/articles/populationandmigrationsta tisticstransformationinenglandandwalesresear choverview/2023#population-sub-groups-and-characteristics-evidence

24. https://www.legislation.gov.uk/asc/2025/2/contents/welsh

25. https://analysisfunction.civilservice.gov.uk/policy-store/government-statistical-service-gss-harmonisation-team-workplan-2024/

26. https://osr.statisticsauthority.gov.uk/publication/review-of-statistics-on-gender-identity-based-on-data-collected-as-part-of-the-2021-england-and-wales-census-final-report/

27. https://analysisfunction.civilservice.gov.uk/policy-store/review-of-disability-data-harmonised-standards-findings-from-phase-2-of-our-research/

28. https://www.armedforcescovenant.gov.uk

29. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/armedforcescommunity/articles/feasibilityresearchonproducingukarmedforcesveteranstatisticsforenglandandwales/2023

30. https://analysisfunction.civilservice.gov.uk/policy-store/review-of-disability-data-harmonised-standards-findings-from-phase-2-of-our-research/

31. https://www.ons.gov.uk/economy/regionalaccounts/grossdisposablehouseholdincome/articles/disaggregatinguksubnationalgrossdisposablehouseholdincometolowerlevelsofgeography/2002to2021

32. https://blog.ons.gov.uk/2024/04/30/understanding-the-new-income-statistics-for-local-areas-different-measures-for-better-insights/
33. https://www.ons.gov.uk/methodology/geography/ukgeographies/censusgeographies/census2021geographies
34. https://www.ons.gov.uk/methodology/geography/ukgeographies/censusgeographies/census2021geographies
35. https://www.ons.gov.uk/census/census2021dictionary/measurementsusedincensus2021data
36. https://www.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/questiondevelopment/outputandenumerationbasesresidentialaddressandpopulationdefinitionsforcensus2021#:~:text=A%20communal%20establishment%20resident%20is,of%2012%20months%20or%20more
37. https://consultations.ons.gov.uk/census/ymgynghoriad-ar-bynciau-cyfrifiad-2031
38. https://consultations.ons.gov.uk/privacy_policy/
39. https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance
40. https://consultations.ons.gov.uk/census/ymgynghoriad-ar-bynciau-cyfrifiad-2031



